Cronfa Loteri Fawr

Cyfarwyddiadau polisi

Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005

	Medi 2005
Angen rhagor o wybodaeth?	Y ffordd orau i gael mwy o wybodaeth yw drwy fynd i'n gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk
Côd	
Hawlfraint	© Cronfa Loteri Fawr, 2005
Design	Graphicsi.com
Print	
Copïau:	Ceir rhagor o gopïau trwy ffonio: 0845 4102030 gan ddyfynnu'r cyfeirnodau uchod: Neu anfonwch ebost atom yn ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk neu archebwch ar y we yn www.cronfaloterifawr.org.uk/cyhoeddiadau Ffôn testun 0845 0390204
	Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, ar ddisg mewn print bras, Saesneg ac ieithoedd cymunedol
Rydym yn poeni am yr amgylchedd	Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig
Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal	Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ceiswyr swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb
	Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd
	Ysgrifennwyd y crynodeb yma gan Steve Browning

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Cronfa Cyfleoedd Newydd
CYFARWYDDIADAU POLISI
Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005

CYFLWYNWYD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL YN UNOL AG ADRAN 34 (3) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON.

PARATOWYD A CHYFLWYNWYD Y CYFRIFON YN UNOL AG ADRAN 43D (4) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL.

GORCHMYNWYD EI ARGRAFFU GAN DŶ'R CYFFREDIN AR 31 MEDI 2005.

CYFLWYNWYD GERBRON SENEDD YR ALBAN GAN WEINIDOGION YR ALBAN AR 31 MEDI 2005.

HC473 SE/2005/201 LLUNDAIN: THE STATIONERY OFFICE. £41.75
SET O DRI: NID I'W GWERTHU ARWAHÂN

Cronfa Loteri Fawr
Cyfarwyddiadau polisi
am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005.

Beth yw cyfarwyddiadau polisi?

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn derbyn cyfarwyddiadau polisi gan y llywodraeth sy'n gosod y fframwaith cyffredinol ar gyfer y mentrau ariannu y byddwn yn eu rhedeg. Mae'r cyfarwyddiadau polisi wedi caniatáu i ni lansio tri 'rownd' o fentrau arian a lansiwyd y cyntaf yn 1999-2000, yr ail ym 2000-2001 a'r trydydd rownd yn 2001-2002.

Cyhoeddir y cyfarwyddiadau polisi yn unol â dwy adran o **Ddeddf Y Loteri Genedlaethol etc 1993: adran 26** (sy'n cyfeirio at bwrpas ac amodau cyffredinol ein hariannu) ac **adran 43** (sy'n gosod allan y fframwaith ar gyfer mentrau ariannu unigol).

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl gyfarwyddiadau polisi a dderbyniodd y Gronfa gan y llywodraeth yn unol â'r ddwy adran hon o Ddeddf 1993.

Hefyd yn unol ag adran 26 Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, mae'r llywodraeth yn rhoi cyfarwyddiadau ariannol i'r Gronfa sy'n gosod allan cyfarwyddiadau faterion rheolaeth ariannol ac atebolrwydd a ddylai fod yn berthnasol i grantiau'r Loteri.

Cynnwys

Cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddwyd yn unol ag adran 26 Deddf 1993 (mentrau rownd un a dau) 4

Cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddwyd yn unol ag adran 43 Deddf 1993 (mentrau rownd un a rownd dau) 8

Newidiadau i gyfarwyddiadau polisi a gyhoeddwyd yn unol ag adran 43 Deddf 1993 (mentrau rownd un a rownd dau) 20

Cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddwyd yn unol ag adran 43 Deddf 1993 (mentrau rownd tri) 31

Cyfarwyddiadau ariannol a gyhoeddwyd yn unol ag adran 26 Deddf 1993 35

CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 26(1) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ymarfer y pwerau a freiniwyd ynddo gan adran 26(1) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

2. Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ystyried y materion canlynol wrth benderfynu ar i ba bersonau y mae'n dosbarthu arian iddynt, at ba ddibenion a'r amodau a fydd ynghlwm wrth yr arian o dan adran 25(1):-

A. Yr angen i sicrhau y dosberthir arian o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n hybu lles y cyhoedd ac sydd heb eu bwriadu'n bennaf am elw preifat;

2. Strategaethau a mentrau cenedlaethol a lleol perthnasol mewn perthynas â phob menter a bennir drwy Orchymyn o dan adran 43B(1), yn enwedig, mewn perthynas â'r canlynol:

i. **Canolfannau Byw yn Iach** – strategaethau iechyd y cyhoedd ym mhob gwlad;

ii. **dysgu tu allan i oriau ysgol** – "Extending Opportunity: a national framework for study support" (yn Lloegr) ac unrhyw ganllawiau tebyg a gynhyrchwyd mewn mannau eraill;

iii. **gofal plant tu allan i oriau ysgol** – y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol ar gyfer Lloegr a'r cynlluniau tebyg ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;

iv. **hyfforddiant TGCh a Chreu Cynnwys** – y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a Rhwydwaith TG Llyfrgelloedd Cyhoeddus;

v. **Atal, canfod, trin a gofal canser** – strategaethau iechyd y cyhoedd ym mhob gwlad a chanllawiau a gyhoeddir gan Raglen Sgrinio'r Fron a Cheg y Groth yr NHS, a hefyd: yn Lloegr, gweithredu adroddiad Calman/Hine 'A Policy Framework for Commissioning Cancer Services' a chanllawiau ategol eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth; yn yr Alban, gweithredu 'Commissioning Cancer Services in Scotland'; yng Nghymru, gweithredu 'Adroddiad Cameron: Gwasanaethau Canser yng Nghymru'; ac yng Ngogledd Iwerddon, gweithredu Adroddiad Campbell 'Cancer Services Investing for the Future';

vi. **meysydd glas a chymunedau cynaliadwy** – cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth leol (LBAPS), strategaethau Agenda Leol 21, fforymau mynediad lleol, Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy y DU,'Down to Earth' yn yr Alban, Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a strategaethau'r Comisiwn Cefn Gwlad, yr Asiantaeth Datblygu Gwledig, yr Asiantaeth Cefn Gwlad, Scottish Natural Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru;

vii. **cymunedau'n manteisio ar ddysgu gydol oes** – 'The Learning Age' (Gorch 3790),'Opportunity Scotland' (Gorch 4048), cynlluniau perthnasol Datblygu Dysgu Gydol Oes, 'Building the public Library Network', Her y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu 'Open for Learning, Open for Business', y Brifysgol ar gyfer Diwydiant, Prifysgol Diwydiant yr Alban; a mentrau'r Alban ar Gynlluniau Dysgu Cymunedol, Ysgolion Cymunedol Newydd a Chynlluniau Gweithredu ar Addysg;'Rhywbeth i Bawb yw Dysgu' (Gorch 3924) (Cymru); a 'Lifelong Learning: a new culture for all' (Gogledd Iwerddon).

C. Yr angen i sicrhau, wrth ariannu Canolfannau Byw yn Iach:

i. bod defnyddwyr a chymunedau lleol yn cymryd rhan yn eu dylunio a'u cyflwyno;

ii. bod canolfannau'n hygyrch i bobl o bob oedran ond gyda phwyslais arbennig ar bobl sy'n dioddef difrieniad, neu sy'n cael anhawster wrth ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau iechyd sy'n bodoli'n barod;

iii. bod prosiectau'n cynnwys ystod eang o gyfleusterau, gweithgareddau a gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, cynlluniau bwyd cydweithredol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cyfleusterau estyn neu ganolfannau galw-i-mewn;

iv. bod prosiectau'n adlewyrchu dehongliad eang o iechyd sef ansawdd bywyd sy'n mynd y tu hwnt i atal clefyd neu hybu dulliau byw iach ac yn cydnabod y dylanwadau cymdeithasol ac economaidd ehangach ar iechyd;

5. Bod y rhai sy'n ymwneud â cheisiadau am arian mewn sefyllfa briodol i hybu byw yn iach.

4. Yr angen i sicrhau, wrth ariannu addysg a gofal plant tu allan i oriau ysgol gan gynnwys ysgolion haf:

i. bod prosiectau'n hygyrch i blant a phobl ifanc o bob cefndir a gallu ond gyda ffocws arbennig ar gefnogi prosiectau sy'n gwasanaethau cyfran uchel o'r rhai sy'n ddifreintiedig a/neu sydd mewn perygl o dangyflawni neu o anfodlonrwydd;

ii. bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu anghenion, amgylchiadau a gobeithion pob rhan o'r gymdeithas, cymunedau lleol penodol, a'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan. Dylai cymunedau a chyfranogwyr lleol gymryd rhan wrth gynllunio a chyflwyno prosiectau lle bo'n bosibl;

iii. bod cyfranogiad mewn prosiectau'n cyflawni o leiaf un o'r amcanion canlynol:

- bodloni anghenion rhieni a chynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc a fydd yn hybu eu lles, fel chwarae, mabolgampau a gweithgareddau creadigol;
- helpu i godi safonau cyrhaeddiad yn yr ysgol a chynorthwyo datblygiad deallusol a chymdeithasol plant a phobl ifanc, drwy gyfrwng ystod eang o weithgareddau dysgu effeithiol.

iv. bod prosiectau a ariannir i gefnogi lleoedd ysgolion haf yn ogystal yn rhoi sylw arbennig i anghenion plant o leiafrifoedd ethnig; plant â'r Saesneg yn ail iaith iddynt; plant ag anghenion addysgol arbennig; a phlant dawnus a thalentog.

v. bod prosiectau a ariannir i gefnogi lleoedd ysgolion haf yn ogystal yn cynnwys:

- y rhai sy'n golygu bod ysgolion yn gweithio gydag asiantaethau eraill o'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat;
- yn achos y rhai sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ysgolion arbennig sy'n gweithio gydag ysgolion y brif ffrwd.

D.a. Yr angen i sicrhau, wrth ariannu atal, canfod, trin a gofal canser:

i. lle bo'n briodol, bod cymunedau lleol yn cymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno prosiectau, gan adeiladu ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau canser lleol fel y'i cytunwyd gan gomisiynwyr a darparwyr y gwasanaeth, yn statudol ac fel arall;

ii. bod prosiectau'n ystyried anghenion pobl ag anableddau neu sydd dan anfantais gymdeithasol;

iii. y rhoddir ystyriaeth i rôl gwirfoddolwyr wrth gyflwyno'r prosiectau;

iv. bod prosiectau'n ategu'r ddarpariaeth bresennol (gyhoeddus neu breifat) ac nid yn cystadlu â hi, gan gynnwys mentrau eraill y Gronfa (yn enwedig canolfannau byw yn iach) a phrosiectau Loteri eraill (yn enwedig rhai'r NLCB);

v. bod gan brosiectau ffocws clir,a thargedau mesuradwy a chyraeddadwy;

vi. annog prosiectau sy'n datblygu partneriaethau lleol yn arbennig rhwng y sectorau gwirfoddol a statudol a/neu dechnegau neu ymagweddau arloesol neu y gellir eu defnyddio eto;

vii. yn Lloegr, y rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n darparu offer newydd neu'n diweddaru offer sgrinio, diagnosis neu drin canser.

D.b. Yr angen i sicrhau, wrth ariannu meysydd glas a chymunedau cynaliadwy:

i. bod cymunedau lleol yn cymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno prosiectau a sicrhau eu bod yn gynaliadwy;

ii. bod prosiectau'n ystyried anghenion pobl ag anableddau neu sydd dan anfantais yn gymdeithasol;

iii. y rhoddir ystyriaeth i rôl gwirfoddolwyr wrth gyflwyno'r prosiectau;

iv. bod prosiectau'n ategu'r ddarpariaeth bresennol ac nid yn cystadlu â hi, gan gynnwys mentrau eraill y Gronfa a phrosiectau Loteri eraill (yn enwedig rhai Cronfa Dreftadaeth y Loteri), a bod pob prosiect yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â rhaglenni amgylcheddol a chymunedol lleol sy'n bodoli'n barod;

v. bod gan brosiectau ffocws clir, a thargedau mesuradwy a chyraeddadwy;

vi. bod prosiectau o werth adloniadol yn cynnwys prosiectau sy'n darparu cyfleusterau i blant chwarae, chwaraeon wedi'u trefnu ac anffurfiol, a meysydd chwarae;

vii. yn yr Alban, y prif ffocws yw rhoi cymorth i brynu a rheoli tir gwledig gan gymunedau lle bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol.

D.c. Yr angen i sicrhau, wrth ariannu cymunedau sy'n manteisio ar ddysgu gydol oes:

i. bod cymunedau lleol a chymunedau â diddordeb, lle bo'n briodol, yn cymryd rhan mewn pennu blaenoriaethau, ac mewn cynllunio a chyflwyno prosiectau;

ii. bod prosiectau'n rhoi sylw arbennig i anghenion: pobl ag anableddau neu sydd dan anfantais gymdeithasol; pobl gydag ychydig neu ddim cymwysterau ffurfiol; pobl mewn cymunedau anghysbell, lleiafrifoedd ethnig; grwpiau ieithoedd lleiafrifol; grwpiau ffydd; cymunedau o deithwyr; a phobl sy'n ei chael yn anodd ymwneud ag addysg neu hyfforddiant ffurfiol neu sydd â chefndir o allgáu ac anfantais addysgol;

iii. bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i rôl gwirfoddolwyr wrth gyflwyno'r prosiectau;

iv. bod prosiectau'n ategu'r ddarpariaeth bresennol neu arfaethedig yn y sectorau cyhoeddus neu breifat ac nid yn cystadlu â hi, gan gynnwys mentrau eraill y Gronfa, prosiectau Loteri eraill, y Gronfa Addysg Oedolion a Chymunedol, Cynlluniau Dysgu Cymunedol (yn yr Alban), canolfannau dysgu a ariannir gan y Gronfa Moderneiddio Cyfalaf a gyhoeddwyd ym Mawrth 1999, a mentrau'r Undeb Ewropeaidd;

v. bod gan brosiectau ffocws clir,a thargedau mesuradwy a chyraeddadwy sydd, lle bo'n briodol, yn gyson â'r targedau ar gyfer TGCh a nodir yn Her y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (Tachwedd 1998);

vi. annog prosiectau sy'n cysylltu adnoddau dysgu a ddarperir gan y llywodraeth ac eraill, a lle bo'n berthnasol yn ystyried strategaethau a ddatblygwyd gan bartneriaethau lleol dysgu gydol oes a'r Brifysgol ar gyfer Diwydiant;

5. Yr angen i hybu amcanion datblygu cynaliadwy;

F. Wrth ystyried ceisiadau sy'n ymwneud â'r mentrau a bennir drwy Orchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 43B(1):

1. yr angen i sicrhau bod gan bob rhan o'r DU fynediad i arian; a

2. y cyfle i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd â chyflwyno'r manteision a bennir yn unol â phob menter;

7. Wrth ddehongli Cyfarwyddyd F, dymunoldeb mewn perthynas â'r canlynol:

i. Canolfannau Byw yn Iach i dargedu prosiectau mewn Parthau Gweithredu ar Iechyd yn Lloegr ac mewn mannau eraill yn ôl yr angen a'r rhai yn yr ardaloedd o ddifreintedd iechyd mwyaf;

ii. addysg tu allan i oriau ysgol, rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n cynnwys ysgolion mewn Parthau Gweithredu ar Addysg (yn Lloegr) a'r rhai sy'n cynnwys ysgolion eraill sy'n gwasanaethu'r ardaloedd o angen cymdeithasol ac economaidd mwyaf;

iii. gofal plant tu allan i oriau ysgol, sicrhau bod prosiectau'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir gan y cyrff sy'n gyfrifol am lunio cynlluniau i gyflwyno'r strategaeth gofal plant yn lleol ym mhob gwlad; a bod dyraniad arian rhwng ardaloedd yn ystyried lefel yr anghenion a nodir gan y cyfryw gyrff;

iv. atal, canfod, trin a gofal canser, targedu prosiectau yn ardaloedd lle mae'r cyfraddau a marwolaeth uchaf, a'r anghydraddoldebau mwyaf o ran mynediad a darpariaeth;

v. meysydd glas a chymunedau cynaliadwy, targedu prosiectau mewn ardaloedd amddifadedd lluosog.

H. Yr angen i arian a ddosberthir o dan adran 25(1) gael ei ddosbarthu i brosiectau sydd â dibenion penodol ac yn ôl amserlen benodol;

I. Yr angen:

i. ym mhob achos, i ymgeiswyr ddangos hyfywdra ariannol y prosiect am gyfnod y grant;

ii. lle gofynnir am arian cyfalaf, am gynllun busnes clir y tu hwnt i gyfnod y grant ar gyfer costau rhedeg a chynnal-a-chadw cysylltiedig;

iii. mewn achosion eraill, i ystyriaeth gael ei rhoi i argaeledd tebygol arian arall i dalu unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl diwedd y dyfarniad Loteri, gan ystyried maint a natur y prosiect, ac i arian Loteri gael ei ddefnyddio i hybu cynnydd tuag at hyfywdra y tu hwnt i gyfnod y grant lle bo'n bosibl;

10. Yr angen i'w gwneud yn ofynnol bod elfen o arian partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill, yn gymesur â gallu rhesymol mathau eraill o geisiadau, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i gael cymorth o'r fath;

K. Yr angen i sicrhau y defnyddir ei phwerau i ofyn am geisiadau o dan adran 25 (2A) mewn cysylltiad â dilyn amcanion strategol;

L. Dymunoldeb gweithio gyda chyrff eraill ac ystyried eu barn fel ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau o'i strategaeth;

M. Wrth benderfynu ar bob cais, yr angen i sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth ag sy'n angenrheidiol i benderfynu gan gynnwys cyngor annibynnol lle bo'i angen.

CYFARWYDDIADAU I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 43 C(1) O DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL etc 1993

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 43C (1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

2. At ddibenion y Cyfarwyddiadau hyn, diffinnir rhai termau allweddol yn yr Atodlen. Mae'r Atodlen hon yn rhan o'r Cyfarwyddiadau hyn.

3. Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau canlynol.

1. CANOLFANNAU BYW YN IACH

1.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn Medi 2002, ymrwymo arian i brosiectau a ddylai, rhyngddynt, sefydlu neu ddatblygu canolfannau byw yn iach sy'n hygyrch i o leiaf 20% o boblogaeth y DU.

Nodiadau esboniadol:

1. Dylai ardal drothwy y canolfannau gynnwys o leiaf 20% o boblogaeth y DU.

2. Nod y fenter hon yw targedu ardaloedd sy'n cynnwys adrannau mwyaf difreintiedig cymdeithas er mwyn lleihau anghyfatraleddau iechyd ar draws y DU a gwella iechyd pobl dlotaf cymdeithas. Mae Cyfarwyddiadau Polisi B, C a G yn delio â nodau, nodweddion dymunol a thargedu canolfannau byw'n iach.

3. Gellir dyfarnu arian i sefydlu darpariaeth newydd, neu i ymestyn neu wella darpariaeth bresennol (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

1.2. Bydd y Gronfa yn ymrwymo cyfanswm o £300 miliwn (gan gynnwys costau gweinyddol) i brosiectau sy'n dod i fewn i'r fenter canolfannau byw yn iach.

Nodiadau esboniadol:

1. O'r cyfanswm o £300 miliwn, mae'n debyg y bydd £200 miliwn ar gael i'r Gronfa cyn 2001 a £100 miliwn ar ôl 2001

2. Mae'n annhebygol y bydd modd ymrwymo arian yn union yn unol â ffigurau'r Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod canlyniad yr arian, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% fwy neu llai na£300 miliwn.

1.3. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 77.5% o'r cyfanswm sy'n cael ei ymrwymo, dros amser, fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Mae dyraniad arian yn y Cyfarwyddyd hwn yn ystyried poblogaeth ac amddifadedd perthynol pob gwlad.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn unol â'r cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad erbyn diwedd y fenter. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd da o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael defnyddio ei phŵer i ofyn am geisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

3. Mae'n annhebygol y bydd modd ymrwymo arian yn union yn unol â chanrannau'r Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod canlyniad yr arian, heb gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% fwy neu llai o werth arian parod pob canran.

2. GWEITHGAREDDAU TU ALLAN I ORIAU YSGOL

2.1. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo arian i brosiectau addysg tu allan i oriau ysgol a ddylai gyda'i gilydd ddarparu gweithgareddau rheolaidd sy'n cynnwys o leiaf hanner yr holl ysgolion uwchradd, o leiaf chwarter o'r holl ysgolion cynradd, ac o leiaf hanner yr holl ysgolion arbennig erbyn 2001; ac i brosiectau gofal plant tu allan i oriau ysgol sydd o'u cymryd gyda'i gilydd yn darparu lleoedd gofal plant i 865,000 o blant erbyn 2003.

2.1.a. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo arian i brosiectau ysgol haf a ddylai o'u cymryd gyda'i gilydd ddarparu lleoedd mewn ysgolion haf i 250,000 o ddisgyblion ychwanegol erbyn 2002.

Nodiadau esboniadol:

1. Mae'r targed ar gyfer prosiectau addysg tu allan i oriau ysgol yn gymwys o fewn pob gwlad, yn ogystal ag ar draws y DU gyfan (h.y. prosiectau sy'n cynnwys o leiaf hanner yr holl ysgolion uwchradd yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn y blaen).

2. Er mwyn i brosiect addysg tu allan i oriau ysgol "gynnwys" un neu ragor o ysgolion, rhaid bod ganddo gefnogaeth pob ysgol y mae ei disgyblion yn cael eu gwasanaethu. Er hynny, nid oes rhaid i brosiectau gael eu lleoli mewn ysgolion na chael eu harwain gan ysgolion, a gallant wasanaethu plant o fwy nag un ysgol.

3. Gall arian gael ei ymrwymo i sefydlu darpariaeth newydd, ehangu neu wella darpariaeth bresennol neu gynnal darpariaeth bresennol o ansawdd da (gan ystyried cyfarwyddyd Polisi Div., Dv., ac H).

4. Bydd cefnogaeth ar gyfer darparu gofal plant tu allan i oriau ysgol ar gael hefyd fel rhan o raglenni'r Adran Addysg a Chyflogaeth, Swyddfa'r Alban, y Swyddfa Gymreig a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon). Ym 1998-99, bydd y rhaglenni hyn yn ategu sefydlu lleoedd i tua 135,000 o blant ledled y Deyrnas Unedig, a fydd, o'u cymryd gyda'r lleoedd i tua 865,000 o blant sydd i'w sefydlu gyda chymorth y Gronfa, yn cyflawni'r ymrwymiad i leoedd i filiwn o blant sy'n rhan bwysig o strategaethau gofal plant y Llywodraeth dros bob gwlad. O 1999-2000 ymlaen, trefnir bod adnoddau ar gyfer y rhaglenni hyn ar gael o hyd mewn ffyrdd sy'n cydategu'r cymorth sydd ar gael oddi wrth y Gronfa.

5. Gall y Gronfa dynnu ar ei phŵer i ofyn am geisiadau, pe bai'n edrych yn debygol y byddai angen gwneud hynny i gyflawni'r targed yn y Cyfarwyddyd hwn (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K). Prif nod ysgolion haf yw darparu gweithgareddau dysgu sy'n annog ac yn ysgogi disgyblion, yn codi eu hunan-barch a'u helpu i gyrraedd safonau uwch. Mae'r targed yng Nghyfarwyddyd 2.1.a yn ychwanegol at y targedau a bennir yng Nghyfarwyddyd 2.1 ac nid yw darparu'r lleoedd ysgol haf hyn yn cyfrif tuag at gyrraedd y targedau a bennwyd yn y Cyfarwyddyd cynharach.

2.2. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £400 miliwn (gan gynnwys costau gweinyddol) i weithgareddau tu allan i oriau ysgol. O fewn hyn, dylai £180 miliwn gael ei ymrwymo i weithgareddau addysg, £200 miliwn i ofal plant, ac £20 miliwn i brosiectau integredig sy'n cyfuno gofal plant ac addysg.

2.2.a. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo £25 miliwn ychwanegol i ariannu lleoedd ysgol haf ychwanegol fel a ddisgrifir yng Nghyfarwyddyd 2.1.a.

Nodiadau esboniadol:

1. O'r cyfanswm o £400 miliwn (a nodir yn 2.2 uchod), mae'n debyg y bydd £300 miliwn ar gael i'r Gronfa cyn 2001 a £100 miliwn ar ôl 2001 drwy'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Gronfa. Mater i'r Gronfa yw rhaniad arian rhwng dwy elfen y fenter dros amser, gan gofio'r angen i fodloni'r dyddiadau cau ar gyfer y targedau yng Nghyfarwyddyd 2.1.

2. Mae'n annhebygol y bydd modd ymrwymo arian yn union yn unol â ffigurau'r Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod canlyniad yr arian, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% fwy neu llai na bob un o'r ffigurau.

2.3. Dylai pob cydran o'r cyfanswm o £425 miliwn sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau tu allan i oriau ysgol yng Nghyfarwyddyd 2.2 a 2.2.a., heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei dyrannu rhwng pob gwlad yn y DU, er mwyn i 77.5% o'r cyfanswm a ddyrennir fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Mae dyraniad arian yn y Cyfarwyddyd hwn yn ystyried poblogaeth ac amddifadedd perthynol pob gwlad ar yr un sail â dyraniad arian Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol i'r gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn unol â'r cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad erbyn diwedd y fenter. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd da o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael defnyddio ei phŵer i ofyn am geisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

3. Mae'n annhebygol y bydd modd ymrwymo arian yn union yn unol â chanrannau'r Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod canlyniad yr arian, heb gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% fwy neu llai o werth arian parod pob canran.

4. Mater i'r Gronfa yw sut mae gwireddu'r targed o leoedd ar gyfer 865,000 o blant (fel a nodir yn 2.1 uchod) ledled y Deyrnas Unedig. Er hynny, y disgwyl yw i ddosbarthiad y lleoedd ddilyn yn fras y dosbarthiad sy'n ofynnol o dan y Cyfarwyddyd hwn.

2.4. Bydd y cyrff canlynol yn gymwys i wneud cais am arian ar gyfer gweithgareddau addysg tu allan i oriau ysgol:

a) ysgolion (fel y'u diffinnir yn yr Atodlen);

b) cyrff statudol ac anstatudol sy'n gweithio gydag un neu ragor o ysgolion a enwir;

c) unrhyw gyfuniad o'r uchod, gan gynnwys grwpiau o ysgolion.

Gall unrhyw un o'r cyrff a restrir weithredu fel y prif gorff wrth wneud cais, ond rhaid bod gan bob cais gefnogaeth o leiaf un ysgol a enwir.

Nodiadau esboniadol:
1. Bwriad y Cyfarwyddyd hwn yw sicrhau bod gan bob prosiect a ariannir, gefnogaeth o leiaf un ysgol a enwir (fel y'u diffinnir yn yr Atodlen). Er hynny, mae cyrff eraill yn gymwys i wneud cais ac i gymryd rhan mewn ceisiadau a chroesewir hynny.

2. Gall ysgolion annibynnol1 gymryd rhan mewn ceisiadau fel partneriaid os bwriedir i brosiectau fod o fudd i ddisgyblion yn yr ysgolion hynny a diffinnir yn yr Atodlen a'r ysgol(ion) annibynnol o dan sylw, ond ni fwriedir i'r fenter ariannu prosiectau sy'n cynnwys disgyblion mewn ysgolion annibynnol yn unig. Dylid darllen hwn ar y cyd â Chyfarwyddiadau Polisi D, F a G sy'n ymdrin ag amddifadedd.

3. Ymhlith y cyrff statudol ac anstatudol a fydd yn gymwys y mae Awdurdodau Addysg lleol (neu Awdurdodau Addysg yn yr Alban), partneriaethau addysg-busnes, Cynghorau Hyfforddiant a menter yng Nghymru a Lloegr,Cwmnïau Menter Lleol yn yr Alban, llyfrgelloedd cyhoeddus, cyrff gwirfoddol lleol a chenedlaethol, athrofeydd addysg bellach ac uwch, ysgolion annibynnol, a chyrff eraill, yn ddarostyngedig i'r gofynion yng Nghyfarwyddyd Polisi A mewn perthynas â lles y cyhoedd

2.5. Yn unol â'r fenter hon rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus fodloni pob gofyniad statudol perthnasol fel lleiafswm, yn enwedig y rhai ar gofrestru o dan y Ddeddf Plant lle bo'n gymwys, a phob gofyniad iechyd a diogelwch.

Nodyn esboniadol:
1. Rhestrir isod y prif ofynion statudol y mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fel lleiafswm eu bodloni at ddibenion y Cyfarwyddyd hwn:

Darpariaethau perthnasol:

Deddf Plant 1989 ac yng Ngogledd Iwerddon 'Gorchymyn Plant (GI) 1995' Deddf Iechyd a Diogelwch etc yn y Gwaith 1974, ac yng Ngogledd Iwerddon, Gorchymyn Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (GI) 1978 Gwiriadau cofnod troseddol ac, i Loegr [a Chymru] gwiriadau Rhestr 99 [i ddod yn rhan o Ran V Deddf yr Heddlu 1997 cyn hir] ac ar gyfer Gogledd Iwerddon, Gwiriadau Datgelu Cefndir Troseddol Personau â Mynediad i Blant,'Gwiriadau Cylchlythyr 1990/128 DENI'. Ireland, Disclosure of Criminal Background of Persons with Access to Children Checks, 'DENI Circular 1990/128 Checks'.

2.6. Wrth bennu lefelau staffio ysgolion haf, dylai pob ysgol haf sy'n gwasanaethu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) roi sylw i Gylchlythyr 11/90 DfEE (yng Nghymru, Cylchlythyr 58/90 y Swyddfa Gymreig),'Staffio i Ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig', a rhoi sylw i Reoliadau Athrawon Dysgu 1993 mewn perthynas ag athrawon sy'n gweithio gyda phlant â nam ar eu golwg neu eu clyw, neu'r ddau. Rhaid i ysgolion ystyried gofynion mynediad corfforol a mynediad i'r cwricwlwm i ddisgyblion ag AAA a/neu anabledd, a phennu cymarebau athro/disgybl priodol. Yn yr Alban, dylid cyfeirio at God Ysgolion 1956 ar gyfer lefelau staffio i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a chymwysterau i athrawon sy'n gweithio gyda phlant â nam ar eu golwg neu eu clyw, neu'r ddau.

Nodiadau esboniadol:
1. At ddibenion ehangu ysgolion haf y fenter gweithgareddau tu allan i oriau ysgol, mae gan blentyn "anghenion addysgol arbennig" os oes ganddo neu ganddi anghenion addysgol arbennig o fewn diffiniad Adran 312 o Ddeddf Addysg 1996 yng Nghymru a Lloegr, yn adran 1(5)(d) o Ddeddf Addysg (yr Alban) 1980 yn yr Alban, ac Erthygl 3 o Orchymyn Addysg (Gogledd Iwerddon) 1996 yng Ngogledd Iwerddon.

3. HYFFORDDIANT TGCh A CHREU CYNNWYS

3.1. Rhaid i'r Gronfa sicrhau bod yr hyfforddiant a ariannir gan y fenter hon ar gael i'r athrawon ysgol,staff llyfrgelloedd ysgol a staff llyfrgelloedd cyhoeddus hynny a ddiffinnir yn y tabl isod, sydd ei angen:

	Athrawon	Staff llyfrgelloedd ysgol	Staff llyfrgelloedd cyhoeddus
Lloegr	Athrawon sy'n gweithio mewn ys golion a gynhelir a Cholegau Technoleg Dinesig sy'n cymhwyso fel athrawon cyn Mai 1999 neu sydd heb dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Lloegr ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn TGCh.	Staff a gyflogir i oruchwylio, cynnal, gwasanaethu a darparu cymorth ar gyfer llyfrgell yr ysgol.	Aelodau o staff yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n gyfrifol am reoli a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd.
Yr Alban	Athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion cyhoeddus, ysgolion sy'n cael grant ac ysgolion hunan-lywodraethol a ddechreuodd hyfforddiant cychwynnol athrawon cyn dechrau sesiwn 1999/2000.	Staff a gyflogir i oruchwylio, cynnal, gwasanaethu a darparu cymorth ar gyfer llyfrgell yr ysgol.	Aelodau o staff yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n gyfrifol am reoli a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd.
Cymru	Athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir sy'n cymhwyso fel athrawon cyn Mai 2000 neu sydd heb ddilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn TGCh.	Staff a gyflogir i oruchwylio, cynnal, gwasanaethu a darparu cymorth ar gyfer llyfrgell yr ysgol.	Aelodau gweithredol o staff yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n gyfrifol am reoli a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd.
Gogledd Iwerddon	Athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n cael cymorth grant sydd angen datblygu lefel o allu sy'n cyfateb i'r hyn a bennir mewn perthynas â TGCh yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.	Staff a gyflogir i oruchwylio, cynnal, gwasanaethu a darparu cymorth ar gyfer llyfrgell yr ysgol.	Aelodau o staff yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n gyfrifol am reoli a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd.

Nodiadau esboniadol:

1. Ar hyn o bryd mae 500,000 o athrawon yn y sector a gynhelir yn y DU; mae ymchwil yn awgrymu bod ar 450,000 o'r rhain angen hyfforddiant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Amcangyfrifir bod 27,000 o staff llyfrgelloedd cyhoeddus ag anghenion hyfforddi yn y DU. Mae staff llyfrgelloedd ysgol yn cynnwys staff a gyflogir gan yr ysgol i oruchwylio, cynnal a gwasanaethu llyfrgell yr ysgol ac fe allent gynnwys athrawon, llyfrgellwyr cymwys ac eraill sydd heb gymhwyster naill ai fel athro na llyfrgellydd.

2. Athrawon sydd ar waith yw athrawon â chanddynt gontract parhaol amser-llawn neu ran-amser i weithio mewn ysgol sy'n dod i mewn i'r diffiniadau uchod. Ni fyddai athrawon cyflenwi nac athrawon ymgynghorol yn gymwys fel rheol. Mae Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid Gweithredol yn gymwys yn yr ysgol lle maent wedi'i lleoli ar hyn o bryd. Bydd y Gronfa'n ystyried achosion eithriadol. Er y bydd athrawon â chontractau parhaol rhan-amser yn gymwys i gael hyfforddiant, mae'n debyg y seilir yr hawl a roddir gan y Gronfa, neu gorff sy'n gweithredu ar ei rhan, i ysgol gael hyfforddiant, o leiaf yn rhannol, ar nifer yr athrawon amser-llawn neu'r athrawon cyfartal ag amser-llawn yn yr ysgol yn hytrach na chyfanswm yr athrawon amser-llawn a rhan-amser yn yr ysgol.

3.2. Rhaid i'r Gronfa sicrhau na chyflwynir yr hyfforddiant a ariannir o dan y fenter hon ond gan ddarparwyr a gymeradwywyd gan y Gronfa neu gorff sy'n gweithredu ar ei rhan. Wrth gymeradwyo darparwyr, bydd y Gronfa, neu gorff sy'n gweithredu ar ei rhan, yn sicrhau y bydd yr hyfforddiant a gyflwynir yn unol â'r fenter hon yn rhoi i athrawon, staff llyfrgelloedd ysgol a staff llyfrgelloedd cyhoeddus y lefel o wybodaeth a medrau wrth ddefnyddio TGCh a ddiffinnir yn y tablau isod, a'i fod yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg o fewn yr ystafell ddosbarth neu'r llyfrgell i helpu plant a phobl o bob oedran i ddysgu.

	Athrawon	Staff llyfrgelloedd ysgol	Staff llyfrgelloedd cyhoeddus
Lloegr	Safon Cwricwlwm Cenedlaethol Lloegr ar gyfer hyfforddiant cychwynnol mewn TGCh.	Safon i'w diffinio mewn canllawiau a gynhyrchir gan Asiantaeth Technoleg Addysgol a Chyfathrebu Prydain ar ran adrannau addysg.	Safon i'w chynhyrchu gan yr LIC.
Yr Alban	Safon Canllawiau TGCh SOEID ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon.		
Cymru	Safon Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer hyfforddiant cychwynnol mewn TGCh.		
Gogledd Iwerddon	Safon sy'n cyfateb i Gwricwlwm Cenedlaethol Lloegr ar gyfer hyfforddiant cychwynnol mewn TGCh.		

Nodyn esboniadol:

1. Er ei bod yn ofynnol i'r Gronfa ariannu hyfforddiant i ddod ag athrawon a staff llyfrgelloedd i safon benodedig, dylai'r cynlluniau hyfforddi a gymeradwyir gan y Gronfa fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ysgol neu lyfrgell sy'n cael yr hyfforddiant ystyried medrau a gwybodaeth yr athro neu'r aelod o staff o dan sylw ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

3.3. Ni fydd unigolion na llyfrgelloedd cyhoeddus unigol yn gymwys i wneud cais am arian o dan elfen hyfforddiant y fenter hon – bydd y Gronfa'n gwahodd Awdurdodau Llyfrgell Cyhoeddus i wneud cais ar ran y llyfrgelloedd yn eu hardal am arian ar gyfer hyfforddiant. Y cyrff hynny sy'n gymwys i wneud cais am arian o dan elfen hyfforddiant y fenter hon yw:

Gwlad	Athrawon	Staff Llyfrgelloedd Ysgol	Staff Llyfrgelloedd Cyhoeddus
Lloegr	Ysgolion	Ysgolion	Awdurdodau llyfrgell
Yr Alban	Ysgolion neu awdurdodau addysg	Awdurdodau addysg	Awdurdodau llyfrgell
Cymru	AALl neu ysgolion	AALl neu ysgolion	Awdurdodau llyfrgell
Gogledd Iwerddon	Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd	Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd	Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd

Nodiadau esboniadol:

1. Bwriad yr hyfforddiant a ddarperir i staff llyfrgelloedd cyhoeddus gan y fenter hon yw hwyluso defnydd Rhwydwaith TG Llyfrgelloedd Cyhoeddus a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu ganddynt. Awdurdodau Llyfrgelloedd Cyhoeddus sydd yn y sefyllfa orau i bennu pryd mae'n briodol, o ystyried hyn, i lyfrgelloedd unigol a staff llyfrgelloedd fanteisio ar y ddarpariaeth hyfforddiant o dan y fenter hon. Dyna pam mae'n ofynnol i geisiadau ddod oddi wrth y cyfryw awdurdodau.

2. Yn Lloegr, ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i bennu blaenoriaeth anghenion hyfforddiant eu staff a sicrhau'r isafswm safon arbenigedd wrth ddefnyddio TGCh yn effeithiol mewn ysgolion. Yr ysgol ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r isafswm safon arbenigedd wrth ddefnyddio TGCh yn effeithiol. Gall Awdurdodau Addysg Lleol roi cyngor i ysgolion ar lunio cynlluniau datblygu, gan gynnwys cynlluniau i godi safonau drwy ddefnyddio TGCh yn effeithiol. Bydd llawer o Awdurdodau Addysg Lleol ("AALl") yn gwneud cais i ymuno â'r rhestr o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy y gall ysgolion ddewis ohonynt y darparwr/darparwyr sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

3. Yng Nghymru a'r Alban, hwyrach y bydd rhai AALl/AA yn dymuno, gyda chytundeb yr ysgolion o dan sylw, wneud cais am arian ar ran grwpiau o ysgolion neu hyd yn oed ar sail yr Awdurdod cyfan. Gan y bydd llawer o AALl/AA yng Nghymru a'r Alban hefyd o bosib am ymuno â'r rhestr o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy y gall ysgolion ddewis ohonynt y darparwr/darparwyr sy'n gweddu orau i'w hanghenion, bydd y Gronfa am ei bodloni ei hun lle bo AALl, AA yn gwneud cais am arian, ni fydd unrhyw wrthdaro buddiannau'n digwydd os yw'r AALl/AA hwnnw'n bwriadu dod un darparwr hyfforddiant hefyd.

3.4. Bydd y Gronfa'n cefnogi digido deunydd addysgol a dysgu a fydd o les i'r gymuned dysgu gydol oes ehangach ac addysg yn ei hystyr ehangaf, ac na fyddai fel arall yn cael ei ddarparu gan y sectorau masnachol neu gyhoeddus yn unig.

Nodyn esboniadol:
1. Bydd angen i'r Gronfa nodi blaenoriaethau ar gyfer digido deunyddiau a datblygu strategaeth i'w gweithredu, gan ystyried barn y cyrff sy'n cynrychioli ystod o ddeiliaid cynnwys, a chan roi cydnabyddiaeth briodol i anghenion a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Er enghraifft, bydd angen ystyried creu deunyddiau Gaeleg yr Alban, Gwyddeleg a Chymraeg yn ogystal â'r ieithoedd heblaw Saesneg a ddefnyddir yn y DU.

3.5. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £300 miliwn (gan gynnwys costau gweinyddol) i hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i athrawon, staff llyfrgelloedd ysgol a staff llyfrgelloedd cyhoeddus, a digido deunyddiau addysgol a dysgu. O fewn hynny, dylid ymrwymo £230 miliwn i hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i athrawon a staff llyfrgelloedd ysgol, £20 miliwn hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i staff llyfrgelloedd cyhoeddus, a £50 miliwn i ddigido deunyddiau addysgol a dysgu.

Nodiadau esboniadol:
1. Mae'n debyg y bydd y £300 miliwn ar gyfer y fenter hon ar gael i'r Gronfa erbyn 2001.

2. Mae'n annhebygol o fod yn bosibl cyflawni'r ymrwymiadau i ariannu yn union yn unol â'r ffigurau yn y Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu llai na phob ffigur.

3. Os na cheir digon o geisiadau o ansawdd dda i ganiatáu i'r Gronfa fodloni'r targedau hyn, caiff y Gronfa dynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

3.6 (i) Dylai'r arian a ddyrennir i hyfforddi athrawon a staff llyfrgelloedd ysgol, heb gynnwys costau gweinyddol, gael eu dyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 79.7% o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, 10.1% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 5.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.7% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

(ii) Dylai'r arian a ddyrennir i hyfforddi staff llyfrgelloedd cyhoeddus, heb gynnwys costau gweinyddol, gael eu dyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 80.8% o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.85% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 4.35% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 3% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:
1. Seilir y dyraniad tiriogaethol ar gyfer hyfforddi athrawon (a staff llyfrgelloedd ysgol) a staff llyfrgelloedd cyhoeddus ar nifer yr athrawon a'r staff llyfrgelloedd cyhoeddus yn y drefn honno ym mhob gwlad.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn y cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, erbyn diwedd y fenter, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd da o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael tynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

3. Mae'n annhebygol o fod yn bosibl cyflawni'r ymrwymiadau i ariannu yn union yn unol â'r canrannau yn y Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu llai na phob canran.

3.7. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus am arian o dan elfen digido deunyddiau addysgol a dysgu'r fenter hon drefnu bod y cynnwys o dan sylw ar gael yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr drwy'r Rhwydwaith Llyfrgelloedd Cyhoeddus a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu.

Nodyn esboniadol:
1. Ni ddylid cymryd y Cyfarwyddyd hwn i rwystro ymgeiswyr rhag ennill refeniw o wasanaethau gwerth ychwanegol neu o godi tâl ar grwpiau defnyddwyr penodol, ond dylid ei ddarllen ar y cyd â Chyfarwyddyd Polisi A.

CRONFA POBL IFANC
CYFARWYDDIADAU I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 43 C (1) O DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ayb 1993

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ymarfer y pwerau a roddir iddo gan adran 43C (1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd:

Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wedi ymgynghori â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau canlynol.

1. Rhaid i'r Gronfa gyflwyno cyfanswm o £200 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y Gronfa Pobl Ifanc.

2. Dylai'r cronfeydd gael eu dyrannu rhwng bob gwlad yn y DU, fel bod 77.5% o gyfanswm y cronfeydd, dros amser, yn cael ei roi i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

3. Wrth nodi prosiectau i'w hariannu, rhaid i'r Gronfa ystyried datblygu targedau priodol y gellir eu mesur i asesu'r buddion y bwriedir iddynt ddeillio o'r prosiectau, o fewn cyfnod yr ariannu a'r tu hwnt.

4. Datblygir cynlluniau ar gyfer y Gronfa mewn ymgynghoriaeth â grwpiau cynrychiadol o bobl ifanc. Bydd pobl ifanc hefyd yn ymwneud â dyluniad a datblygiad cynigion y prosiect, penderfyniadau ar ba brosiectau fydd yn cael eu cefnogi, a gweithrediad, rheolaeth a gwerthusiad prosiectau.

5. Dylai'r Gronfa annog prosiectau ym mhob rhan o'r DU, ond dylai dargedu ei hadnoddau at y bobl ifanc hynny sydd o dan y perygl mwyaf o allgáu a throseddu.

6. At ddibenion y Gronfa, diffinnir pobl ifanc fel y rheiny yn y grŵp oedran 0-25.

7. Yn Lloegr, rhaid i'r Gronfa roi arian dros dair blynedd i'r Gronfa Pobl Ifanc ar gyfer prosiectau a fwriedir i hyrwyddo cynnwys ieuenctid, yn arbennig drwy ddarparu cyfleusterau a gweithgareddau – ar ôl ysgol ac yn ystod cyfnodau gwyliau – i bobl ifanc.

8. Yn Lloegr, rhaid i'r blaenoriaethau ar gyfer ariannu o dan thema cynnwys ieuenctid gynnwys rhaglenni a phrosiectau sy'n cynnig gweithgareddau a chyfleusterau sy'n hyrwyddo'r canlyniadau cadarnhaol canlynol i bobl ifanc:

- **i)** Bod yn iach: mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da a byw bywyd iachus.
- **ii)** Aros yn ddiogel: cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod a thyfu i fyny gan allu gofalu amdanynt eu hunain.
- **iii)** Mwynhau a chyflawni: cael y mwyaf allan o fywyd a datblygu sgiliau ar gyfer bod yn oedolyn.
- **iv)** Gwneud cyfraniad cadarnhaol: at y gymuned ac at gymdeithas a pheidio ag ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol.
- **v)** Lles economaidd: goresgyn anfanteision economaidd-gymdeithasol i gyflawni eu potensial llawn mewn bywyd.

9. Wrth ddatblygu a gweithredu prosiectau i'w hariannu yn Lloegr o dan y Gronfa, bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ceisio gweithio'n agos iawn â phartneriaid priodol, gan gynnwys yr Ymddiriedolaethau Plant arfaethedig, lle maent wedi'u sefydlu, swyddfeydd y Llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, partneriaethau Timau Troseddu Ieuenctid a sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol perthnasol eraill.

10. Yn yr Alban, rhaid i'r Gronfa ystyried yr ymrwymiadau i bobl ifanc a nodir yn 'A Partnership for a Better Scotland' ac ystyried pa mor ddymunol yw hi i adeiladu ar raglenni sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo cynnwys ieuenctid drwy gefnogi dulliau byw gweithgar, iach a chadarnhaol i bobl ifanc gan gynnwys:

- **i)** Mwy o gyfleodd i bobl ifanc gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau eraill, yn enwedig i'w denu oddi wrth ymddygiad negyddol, gan gynnwys mynd i'r afael â materion cydraddoldeb mynediad i weithgareddau gan ferched yn eu harddegau.
- **ii)** Gwirfoddoli ymysg pobl ifanc.

11. Wrth ddatblygu ei rhaglen yn yr Alban, rhaid i'r Gronfa weithio gyda phobl ifanc, asiantaethau cenedlaethol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

12. Yng Nghymru, disgwylir y bydd y Gronfa, yn ystod ei hoes, yn mynd i'r afael ag ystod eang o flaenoriaethau. Dylai'r Gronfa ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd Cymorth, a bydd y blaenoriaethau ar gyfer yr ariannu'n cynnwys rhaglenni a phrosiectau sy'n cynnig gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn, sy'n hyrwyddo un neu fwy o'r canlyniadau cadarnhaol canlynol:

- **i)** Helpu plant a phobl ifanc i fwynhau bywyd a chyflawni eu llawn botensial.
- **ii)** Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer ymdrechion yn y dyfodol, ac uchafu eu potensial drwy gynnal gweithgareddau sy'n cyfrannu at les a bywiogrwydd eu cymunedau.
- **iii)** Cefnogi plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau sydd â'r nod o'u hatal rhag ymwneud ag ymddygiad anghymdeithasol neu droseddol.

13. Yng Nghymru, dylai'r Gronfa weithio'n agos â Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc, a'r Partneriaethau Plant a Phartneriaethau Pobl Ifanc, a dylai ymgynghori â phlant a phobl ifanc wrth bennu ei blaenoriaethau. Hefyd, dylai'r Gronfa weithio'n agos â'r Ddraig Ffynci, y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

14. Yng Nghymru, lle bo'n bosibl, dylai'r cyllid hwn gefnogi blaenoriaethau a nodwyd o fewn cynlluniau'r Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ar lefel leol.

15. Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyllid i brosiectau a ddyluniwyd i hyrwyddo cynhwysiad pobl ifanc. Wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer cyllid bydd y Gronfa'n ystyried y 'Strategaeth i Blant a Phobl Ifanc' sydd ar y gweill a chynnwys rhaglenni a phrosiectau sy'n cynnig gweithgareddau a chyfleusterau sy'n hyrwyddo un neu fwy o'r canlyniadau cadarnhaol canlynol i bobl ifanc.

- **i)** Cyfranogiad – cael eu grymuso i gyfranogi mewn prosesau penderfynu lleol a rhanbarthol a chyfrannu at y gymuned a chymdeithas.
- **ii)** Lles corfforol, meddyliol ac emosiynol– mwynhau lles corfforol, meddyliol ac emosiynol da a chael cefnogaeth a gwybodaeth i wneud dewisiadau ynghylch ffordd iach o fyw.
- **iii)** Cyflawniad, dysgu a mwynhad – cael y cyfle i wireddu eu potensial creadigol a'u llawn botensial ac i archwilio ac elwa ar brofiadau cadarnhaol.
- **iv)** Cefnogaeth deuluol a chymunedol - cefnogi a grymuso teuluoedd a chymunedau i gyflawni newidiadau cadarnhaol i bobl ifanc, y gellir eu perchen a'u cynnal yn lleol.

16. Am bob un o'r pedair ardal mae'n bwysig ystyried tair thema fwaol:

- **i)** Effaith y gwrthdaro ac ymdrin â sectyddiaeth.
- **ii)** Trawsnewid o fabandod i fod yn oedolion ifanc.
- **iii)** Anghenion ychwanegol pobl fregus, a eithriwyd yn gymdeithasol ac sy'n anfodlon.

17. Wrth ddatblygu a gweithredu prosiectau sydd i'w cyllido o dan y Gronfa yng Ngogledd Iwerddon, bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn ceisio gweithio'n agos â phartneriaid priodol, gan gynnwys Adrannau'r Llywodraeth, y sector statudol, sefydliadau perthnasol sector preifat, gwirfoddol a chymunedol, y Comisiynydd dros Blant a Phobl Ifanc a phobl ifanc eu hunain.

Nodiadau Esboniadol

1. Mae dyraniad y cronfeydd ym mharagraff 2 yn cymryd i ystyriaeth y boblogaeth a'r amddifadedd ym mhob gwlad.

Cydnabyddir ei bod yn annhebygol y cyflawnir yr holl ymrwymiadau yn union yn unol â'r canrannau a roddir yn y Cyfarwyddiadau hyn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn cyhyd â bod y canlyniadau heb fod yn fwy na 0.5% i'r ffigwr hwn.

Os bydd unrhyw wlad yn methu â chyflwyno digon o geisiadau ansawdd uchel, gall y Gronfa dynnu ar ei phwerau (o dan adran 25 (2a)) i gymell ceisiadau.

2. Mae'r blaenoriaethau cychwynnol a nodir yn y Cyfarwyddiadau hyn yn ddangosol, ac nid yn anghynhwysol, ac nid ydynt yn atal y Gronfa Cyfleoedd Newydd rhag ariannu prosiectau priodol eraill sy'n cyd-fynd â'r Cyfarwyddiadau.

4. ATAL, CANFOD,TRIN A GOFAL CANSER

4.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2002, ymrwymo arian i brosiectau sydd, rhyngddynt,wedi'u cynllunio i wneud y canlynol:

i) gwella atal canser drwy weithgareddau hybu iechyd a thrwy addysgu cymunedau lleol am beryglon canser a sut i'w lleihau;

ii) hyrwyddo canfod canser drwy wella ymwybyddiaeth o raglenni sgrinio cenedlaethol a mynediad iddynt, ac yn achos canser y fron sgrinio'n arbennig drwy ariannu darparu offer newydd neu adnewyddu offer, yn unol â safonau a ddiffinnir yn genedlaethol;

iii) gwella diagnosis a thriniaeth canser drwy ariannu darparu offer uwch-dechnoleg newydd neu eu hadnewyddu a thrwy wella mynediad i'r ddarpariaeth bresennol a newydd i gleifion yr amheuir eu bod yn dioddef canser neu sydd wedi cael diagnosis canser, yn unol â safonau a ddiffinnir yn genedlaethol;

iv) gwella gofal canser drwy sefydlu a/neu ddatblygu partneriaethau cydweithredol i ddarparu gofal lliniarol effeithiol a chefnogaeth a gwasanaethau gwybodaeth cysylltiedig.

Nodiadau esboniadol:

1. Gall y Gronfa gefnogi prosiectau hybu iechyd, addysg ac ymwybyddiaeth o dan 4.1(i) a (ii) sy'n canolbwyntio ar ganser penodol, ond fe ddylai sicrhau bod y rhaglen yn ei chrynswth yn ymdrin â phob math o ganser. Dylai pob prosiect, a'r rhaglen gyfan, ymchwilio i gyfleoedd i gydweithredu â menter Canolfannau Byw yn Iach y Gronfa.

2. Ymarfer diweddaru unwaith-ac-am-byth yw'r cyfle i brynu offer o dan y fenter hon er mwyn creu safon unffurf a boddhaol dros y wlad. Ni ddylai'r Gronfa ond cefnogi prynu offer newydd neu adnewyddu offer lle bo'n amlwg bod yr offer yn ychwanegol at yr hyn a fwriedir ac a ariannir o fewn cyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo.

3. Y safon y cyfeirir ati yn 4.1(ii) yw bod gan bawb a wahoddir i gael sgrinio'r fron, erbyn 2002, fynediad i sgrinio priodol ac effeithiol sy'n parhau i fodloni safonau a ddiffinnir yn genedlaethol a thargedau sicrwydd ansawdd yn unol â chanllawiau cyhoeddedig.

4. Y safon y cyfeirir ati yn 4.1(iii) yw, erbyn 2002, na ddylai cleifion ag arnynt angen radiotherapi radicalaidd neu beri-lawdriniaethol (heb gynnwys dewis oedi a chanserau'r croen) orfod aros mwy na'r uchafswm oedi derbyniol am radiotherapi fel y'i pennir ar hyn o bryd yn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Cyd-gyngor Oncoleg Clinigol, neu fel y'i pennwyd wedyn mewn safonau cyhoeddedig cenedlaethol yng ngoleuni canlyniadau clinigol.

5. Gall y partneriaethau cydweithredol a enwir yn 4.1.(iv) fod rhwng Awdurdodau Iechyd yng Nghymru a Lloegr, Byrddau Iechyd yn yr Alban, Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon,Ymddiriedolaethau NHS ac Ymddiriedolaethau HSS, y sector gwirfoddol a gwasanaethau cymdeithasol. Gallent wneud cais am amrywiaeth o wasanaethau fel rheoli poen neu ofal seibiant i blant, rhaglenni addysg a hyfforddiant, darparu mynediad cyfartal i wasanaethau hospis neu 'hospis gartref ' neu wasanaethau cefnogaeth ymarferol i osgoi mynd i mewn i'r ysbyty neu gartref nyrsio, datblygu canolfannau galw-i-mewn, a sefydlu llinellau cymorth neu rwydweithiau cefnogaeth i gleifion, teuluoedd a gofalwyr.

6. Gellir ymrwymo arian i sefydlu darpariaeth newydd neu i ehangu darpariaeth bresennol (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi H).

7. Bydd y Gronfa'n cael tynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K), os yw'n ymddangos yn debygol bod angen gwneud hynny. Er mwyn bodloni'r targedau a bennir yn y Cyfarwyddyd hwn.

4.2. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £150 miliwn (gan gynnwys costau gweinyddol) i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter atal, canfod, trin a gofal canser.

Nodiadau esboniadol:

1. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd dda o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael tynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

2. Mae'n annhebygol o fod yn bosibl cyflawni'r ymrwymiadau i ariannu yn union yn unol â'r ffigurau yn y Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu llai na £150 miliwn.

4.3. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 77.5% o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Mae'r dyraniad arian hwn yn ystyried poblogaeth ac amddifadedd perthynol pob gwlad.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn y cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, erbyn diwedd y fenter, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd dda o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael tynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

3. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu llai na phob canran

4.4. Rhaid i'r Gronfa sicrhau bod gan bob prosiect gefnogaeth: yn Lloegr, yr Awdurdod Iechyd perthnasol a swyddfa ranbarthol briodol yr Adran Iechyd sy'n gyfrifol am gydgysylltu gweithredu adroddiad Calman/Hine 'A Policy Framework for Commissioning Cancer Services'; yn yr Alban, y Bwrdd Iechyd perthnasol a Grŵp Canser yr Alban; yng Nghymru, yr Awdurdod Iechyd perthnasol a'r Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser; ac yng Ngogledd Iwerddon, y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5. MEYSYDD GLAS A CHYMUNEDAU CYNALIADWY

Erbyn 2002 bydd y Gronfa, yn ymrwymo arian i brosiectau a gynllunnir i helpu cymunedau trefol a gwledig ledled y DU i ddeall, gwella neu ofalu am eu hamgylchedd:

(i) drwy greu, cadw, gwella neu hybu mynediad i feysydd glas sydd o werth addysgol, adloniannol neu amgylcheddol i'r gymuned, gan gynnwys drwy gaffael tir, ailddefnyddio tir diffaith, a chreu cynefinoedd sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth;

(ii) drwy annog prosiectau bach a leolir yn y gymuned sy'n cynnwys pobl leol mewn gwella a gofalu am eu hamgylchedd a hybu datblygiad cynaliadwy.

Nodiadau esboniadol:
1. Gellir ymrwymo arian i sefydlu darpariaeth newydd neu i wella'r ddarpariaeth bresennol (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi H). Dylai'r Gronfa sicrhau bod ymgeiswyr am arian yn dangos ymwybyddiaeth o fentrau amgylcheddol, cymunedol neu adnewyddu perthnasol eraill a dangos sut mae eu cynigion hwy yn eu cydategu.

2. Dylai fod gan bob prosiect dargedau priodol, mesuradwy ar gyfer y manteision amgylcheddol ac eraill a geir, a hynny o fewn a'r tu hwnt o gyfnod yr arian. Dylai fod gan bob prosiect dargedau ar gyfer lefel cyfranogiad y gymuned wrth roi'r prosiect ar waith a'r gyfran o'r gymuned a fydd yn elwa ar y prosiect. Mae'n bosib y bydd angen targedau amgylcheddol canolradd; er enghraifft, sefydlu strwythurau i wella bioamrywiaeth yn hytrach na tharged bioamrywiaeth penodol.

3. Dylai prosiectau sy'n hybu mynediad o dan y fenter hon gynnwys prosiectau sy'n hybu mynediad i gefn gwlad drwy ddarparu gwybodaeth, a chreu a rheoli llwybrau. Bydd prosiectau'n cynnwys ardaloedd o ddiddordeb lleol arbennig hefyd oherwydd eu bioamrywiaeth.

4. Seilir datblygiad cynaliadwy ar gyflawni pedwar targed bras (y dylai prosiectau geisio eu cyfuno lle bo modd), sef: cynnydd cymdeithasol sy'n bodloni anghenion pawb; diogelu'r amgylchedd yn effeithiol; defnydd doeth ar adnoddau naturiol; a chynnal lefelau uchel a sefydlog o dwf economaidd a chyflogaeth. Gallai prosiectau o dan 5.1.(ii) gefnogi ystod eang o brosiectau gan gynnwys, er enghraifft, llwybrau diogel i'r ysgol, technolegau gwyrdd neu ailgylchu gwastraff.

5. Dylai'r Gronfa geisio annog prosiectau ym mhob rhan o'r DU. Caiff dynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K) os yw'n ymddangos yn debygol bod angen gwneud hynny er mwyn cyflawni hyn.

5.2. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £125 miliwn (gan gynnwys costau gweinyddol) i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter meysydd glas a chymunedau cynaliadwy, y dylai o leiaf 75% ohono fod ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag elfen 5.1(i).

Nodiadau esboniadol:
1. Os na chyflwynir digon o geisiadau ansawdd dda i ganiatáu i'r Gronfa fodloni'r targedau hyn caiff dynnu ar ei phŵer i ofyn am geisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

2. Mae'n annhebygol o fod yn bosibl cyflawni'r ymrwymiadau i ariannu yn union yn unol â'r ffigurau yn y Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% yn fwy neu'n llai na phob ffigur.

5.3. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 77.5% o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:
1. Mae dyraniad yr arian yn ystyried poblogaeth ac amddifadedd ym mhob gwlad.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn y cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, erbyn diwedd y fenter, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd dda o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael tynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

3. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu llai o werth arian parod pob canran.

6. CYMUNEDAU'N MANTEISIO AR DDYSGU GYDOL OES

6.1. Rhaid i'r Gronfa erbyn 2002 ymrwymo arian i brosiectau a gynlluniwyd i gefnogi datblygiad rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau dysgu gyda mynediad TGCh i wybodaeth a dysgu, yn arbennig drwy ddatblygu Gridiau Cymunedol ar gyfer Dysgu a'r Rhwydwaith Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac felly gyfrannu at wireddu'r Brifysgol Ddiwydiant.

Nodiadau esboniadol:
1. Nod y fenter yw annog mwy o oedolion i ddysgu a thrwy hynny gyfrannu at gyrraedd y Targed Cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad oedolion mewn dysgu. Dylai ceisiadau llwyddiannus ddangos eu bod yn adlewyrchu pwysigrwydd dod ag oedolion nad ydynt yn derbyn addysg ar hyn o bryd, neu sy'n wynebu rhwystrau arbennig i gael mynediad i addysg, yn ôl i ddysgu, gan gynnwys drwy waith estyn.

2. Bydd 'gridiau cenedlaethol ar gyfer Dysgu' yn caniatáu i awdurdodau lleol a chymunedau diddordeb ddatblygu adnoddau cymunedol ar-lein a'r modd i'w cyrchu. Gallai'r arian dalu am: seilwaith, gan gynnwys cynhwysedd gwasanaethydd canolog a chostau rhyng-gysylltu; dylunio a datblygu cynnwys; a chostau staff cychwynnol gan gynnwys hyfforddiant i ganolwyr (gan gydategu'r hyn a ariannir yn barod gan y Gronfa ar gyfer athrawon a llyfrgellwyr) ac i ddefnyddwyr (gan gysylltu â'r rhaglen TG i Bawb).

3. Rhaglen i ddatblygu'r seilwaith TG y mae ei angen i gysylltu'r 4,000 o lyfrgelloedd yn y DU â'i gilydd ac â'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a Phrifysgol Ddiwydiant yw'r 'Rhwydwaith Llyfrgelloedd Cyhoeddus', gan ganiatáu iddynt ddarparu ystod eang o wasanaethau ar-lein i'r cyhoedd eu defnyddio a datblygu deunydd digidol newydd. Gallai'r arian dalu am seilwaith; darparu'r cynnwys perthnasol a deunyddiau dysgu eraill; a chostau staff cychwynnol gan gynnwys hyfforddiant i ganolwyr ac i ddefnyddwyr.

4. Er bod disgwyl i lyfrgelloedd cyhoeddus chwarae rhan arwyddocaol wrth wireddu'r rhwydwaith canolfannau dysgu, ystyrir ariannu lleoliadau eraill hefyd (yn arbennig canolfannau cymunedol, amgueddfeydd, orielau, ysgolion neu golegau). Dylai canolfannau dysgu gael eu sefydlu'n bennaf mewn adeiladau sydd eisoes yn bodoli. Ni fwriedir arian y Gronfa i dalu am adeiladu eiddo newydd ond gall ariannu costau cychwyn seilwaith TGCh, costau staffio cychwynnol gan gynnwys hyfforddiant i ganolwyr ac i ddefnyddwyr, a meddalwedd. Disgwylir i'r Gronfa gydgysylltu'r fenter hon â menter canolfannau dysgu y Gronfa Foderneiddio Cyfalaf (CMF) a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ym Mawrth 1999. Lle bo'n briodol bydd prosiectau'n gallu cael arian oddi wrth y ddwy Gronfa.

5. Ni ddylid ariannu prosiectau y mae eu holl fuddiolwyr yn blant o oedran ysgol gorfodol. Er hynny, gallai plant oedran ysgol gorfodol fanteisio ar y fenter hon ar yr amod nad oeddent yn unig neu'n brif fuddiolwyr – er enghraifft, dylid cynnwys prosiectau dysgu i deuluoedd (sy'n cynnwys rhieni mewn dysgu tra'n helpu gwaith ysgol plant) o fewn cwmpas y fenter hon.

6. Gellir ymrwymo arian i sefydlu darpariaeth newydd neu ehangu neu wella'r ddarpariaeth bresennol (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi H).

7. Caiff y Gronfa dynnu ar ei phŵer i ofyn am geisiadau (gan ystyried Gyfarwyddyd Polisi K) os yw'n ymddangos yn debygol bod angen gwneud hynny i fodloni'r targedau yn y Cyfarwyddyd hwn.

8. Wrth gydgysylltu strategaeth gyffredinol y fenter, ac er mwyn sicrhau bod ceisiadau unigol yn cydymffurfio â'r strategaeth hon, dylai'r Gronfa gydweithio'n agos â'r grŵp cydgysylltu TG a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ym Mawrth 1999.

9. Dylid annog canolfannau dysgu sy'n cael arian o dan y fenter hon i weithio tuag at fodloni meini prawf Prifysgol Ddiwydiant er mwyn dod yn rhan o'r rhwydwaith. Wrth ystyried ceisiadau i ariannu sefydlu canolfannau, rhaid i'r Gronfa roi sylw i gyngor oddi wrth y Brifysgol Ddiwydiant (e.e. ynghylch lleoliad, ardaloedd anghysbell neu anfanteisiol iawn) yn ogystal â chyrff perthnasol eraill (e.e. y Comisiwn Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (LIC) ac Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Brydeinig (BECTA)).

6.2. Rhaid i'r Gronfa sicrhau bod prosiectau ag elfen TGCh yn gydnaws yn swyddogaethol ac yn dechnegol â manyleb y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, y Rhwydwaith Llyfrgelloedd Cyhoeddus a Phrifysgol Ddiwydiant.

Nodiadau esboniadol:

1. Rhaid i brosiectau ag elfen TGCh sy'n darparu cynnwys gydymffurfio â Rheolau Sylfaenol y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a'r Cod Ymddygiad i Ddarparwyr Cynnwys, a'i atodiad technegol. Diweddarir y rhain ar y grid i ystyried datblygiadau technegol ac eraill. Gwelir y fersiwn diweddaraf yn http://challenge.ngfl.gov.uk.

2. Dylai'r cyfryw brosiectau ystyried hefyd y safonau a bennir ar gyfer seilwaith a rhwydweithio o ganlyniad i ddatblygu gwasanaethau TGCh a reolir ar gyfer y Grid a'r Brifysgol Ddiwydiant. Nodwyd manyleb swyddogaethol gwasanaethau a reolir yn 'Open for Learning, Open for Business' Her y Grid gan y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 1998. Bydd manyleb dechnegol bellach ar gael ar ddiwedd y broses dendro am wasanaethau'r grid a reolir yng Ngorffennaf 1999 a gwaith arall gan yr LIC ar sut mae hyn yn berthnasol i lyfrgelloedd. Mae'r fanyleb yn debyg o ddatblygu gydag amser i gyd-fynd â datblygiadau mewn technoleg ac anghenion sefydliadau dysgu. Dylai'r holl seilwaith a rhwydweithio TGCh a ddarperir o dan brosiectau Cymunedau'n Manteisio ar Ddysgu Gydol Oes allu weithredu'n gydnaws â'r seilwaith a'r rhwydweithio a sicrheir o dan fanyleb gwasanaeth a Grid a reolir.

3. Hefyd dylai prosiectau fod yn gydnaws yn swyddogaethol ac yn dechnegol â manylebau Prifysgol Ddiwydiant sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn unol â'r rhai ar gyfer y Grid.

6.3. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £200 miliwn (gan gynnwys costau gweinyddol) i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter cymunedau'n manteisio ar ddysgu gydol oes.

Nodiadau esboniadol:

1. Os na chyflwynir digon o geisiadau ansawdd dda i ganiatáu i'r Gronfa fodloni'r targedau hyn caiff dynnu ar ei phŵer i ofyn am geisiadau (gan ystyried Cyfarwyddyd Polisi K).

2. Mae'n annhebygol o fod yn bosibl cyflawni'r ymrwymiadau i ariannu yn union yn unol â'r ffigurau yn y Cyfarwyddyd hwn. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% yn fwy neu'n llai na £200 miliwn.

6.4. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 77.5% o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Mae dyraniad yr arian yn ystyried poblogaeth ac amddifadedd ym mhob gwlad.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn y cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, erbyn diwedd y fenter, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad. Os na chyflwynir digon o geisiadau o ansawdd dda o unrhyw wlad, bydd y Gronfa'n cael tynnu ar ei phŵer i ddeisyf ceisiadau (gan ystyried Gyfarwyddyd Polisi K).

3. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu llai o werth arian parod pob canran.

ATODLEN: DIFFINIAD,CWMPAS A DIBEN ADDYSG A GOFAL PLANT TU ALLAN I ORIAU YSGOL

At ddibenion y Cyfarwyddiadau hyn, oni ddarperir i'r gwrthwyneb:

1. ystyr 'ysgol' yw unrhyw ysgol a gynhwysir yn y rhestri isod

Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon
Ysgolion a gynhelir	Ysgolion cyhoeddus	Ysgolion a gynhelir	Pob ysgol sy'n cael cymorth grant, gan gynnwys ysgolion gramadeg dan reolaeth a gwirfoddol ac ysgolion arbennig
Colegau Technoleg Dinas a cholegau dinas ar gyfer technoleg celf	Ysgolion sy'n cael cymorth grant		
Ysgolion arbennig na chynhelir mohonynt	Ysgolion hunan-lywodraethol	Ysgolion arbennig na chynhelir mohonynt	

2. ystyr "addysg tu allan i oriau ysgol" yw: rhaglenni gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol arferol sy'n gysylltiedig â darpariaeth a nodau cyffredinol ysgolion penodol (ni waeth a yw'r ysgolion unigol yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn darparu'r gweithgareddau neu beidio). Gellir cynnwys gweithgareddau sy'n digwydd cyn ac ar ôl oriau ysgol, amser cinio, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol ar yr amod eu bod yn cyfrannu at y ddarpariaeth addysgol a wneir i bobl ifanc gan yr ysgol a'i phartneriaid. Y prif nod yw darparu gweithgareddau dysgu sy'n ceisio annog ac ysgogi disgyblion, adeiladu eu hunan-barch a'u helpu i gyflawni safonau cyrhaeddiad uwch. Trefnir bod y cyfryw weithgareddau ar gael i ddisgyblion ar sail angen a'r gallu i elwa; bydd disgyblion yn cymryd rhan yn wirfoddol ac fel rheol ni chodir tâl ar y rhai sy'n cymryd rhan;

3. ystyr "gofal plant tu allan i oriau ysgol" yw: darpariaeth sydd ar gael i blant sy'n mynychu'r ysgol (ni waeth a yw'r ysgol yn ysgol fel a ddiffinnir yn i. uchod) naill ai'n amser-llawn neu'n rhan-amser, rhwng 3 a 14 oed, ond gan gynnwys disgyblion 15 ac 16 oed lle bo'n briodol, cyn neu ar ôl y diwrnod ysgol a/neu yn ystod gwyliau'r ysgol. Gall gofal gael ei ddarparu mewn unrhyw leoliad neu ddull, cyn belled ei fod yn cynnig profiad ansawdd dda i blant gydag amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda sy'n briodol i'r ystod o oedrannau a galluoedd o dan sylw. Gellir codi tâl am ddarparu gofal plant. Mae Cyfarwyddyd Polisi D yn nodi'r ystyriaethau i'w cynnwys wrth bwyso a mesur pa weithgareddau i'w hariannu.

iv. cynlluniau sy'n darparu gofal plant tebyg i'r diffiniad o ofal plant tu allan i oriau ysgol yn iii uchod yw "cynlluniau integredig gofal plant ac addysg", ond sy'n cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u dylunio i symbylu, ysgogi a chefnogi dysgu gan ddisgyblion, codi eu hunan-barch a'u helpu i gyflawni cyrhaeddiad safonau uwch ac sydd, er eu bod yn digwydd tu allan i oriau ysgol arferol, yn gysylltiedig â darpariaeth a nodau ysgolion penodol. Gellir codi tâl am y ddarpariaeth hon.

GWELLIANNAU I GYFARWYDDIADAU I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 43 C(1) O DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL etc 1993

A. Rhoddir y Cyfarwyddiadau canlynol drwy hyn i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn unol ag adran 43C (1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

B. Ac eithrio fel a nodir ym mharagraff C, rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

C. Rhoddir y Cyfarwyddiadau a'r Nodiadau Esboniadol a restrir isod gan Weinidogion yr Alban, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd –

i) Mewn perthynas â'r Cyfarwyddyd 2.3.a newydd, Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol, Nodyn Esboniadol 4;
ii) Mewn perthynas â'r Cyfarwyddyd 3.8 newydd, athrawon gwasanaeth y Cartref a'r Ysbyty, y Nodyn Esboniadol cyn belled â'i fod yn berthnasol i'r Alban; a
iii) Y gwelliant i Gyfarwyddyd 5.1 sy'n cyfeirio at Gronfa Tir yr Alban.

GWEITHGAREDDAU TU ALLAN I ORIAU YSGOL

Wedi Cyfarwyddyd 2.3 rhowch Gyfarwyddyd 2.3a newydd fel a ganlyn:

2.3.a. Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol: Bydd y Gronfa yn ymrwymo £25.5m ychwanegol (gan gynnwys costau gweinyddu) i ariannu prosiectau chwaraeon y tu allan i oriau ysgol erbyn 2004. Bydd yr arian yn cael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU fel bod, heblaw am gostau gweinyddu, dros amser, 77.5% o gyfanswm yr arian a ymrwymir i brosiectau ar gyfer prosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Nodiadau Esboniadol

1. Yn Lloegr, bydd y ffocws ar ddarparu adnoddau ar gyfer Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol i baratoi rhaglen wedi'i gynllunio o weithgareddau chwaraeon y tu allan i oriau ysgol. Bydd y Gronfa'n gweithio'na gos gyda Bwrdd Rheoli Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol. Arweinir prosiectau gan bartneriaethau a benodir gan y Grŵp Rheoli Cydlynwyr Chwaraeon Ysgol.

2. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd y ffocws ar ddatblygu gweithgareddau chwaraeon tu allan o oriau ysgol trwy ehangu'r rhaglen ddysgu tu allan i oriau ysgol sy'n bodoli'n barod. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau a drefnir trwy raglenni megis Youth Sport a gall gynnwys darparu swyddi cydlynwyr ar raddfa leol. Dylai prosiectau gynnwys o leiaf un ysgol a enwir a rhoddir blaenoriaeth i brosiectau ar gyfer disgyblion mewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig.

3. Yng Nghymru, bydd yr arian yn cael ei ddyrnau i gefnogi'r argymhellion a wneir yn Adroddiad Grŵp Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yn ogystal â rhaglenni sydd â ffocws clir ar weithgareddau tu allan i oriau ysgol.

4. Yn yr Alban bydd y ffocws ar gynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn barod i gydlynwyr Chwaraeon Ysgol trwy Sport Scotland i'w galluogi i dalu am hyfforddwyr ac arweinwyr i ddarparu gweithgareddau hyfforddi ar ôl ysgol.

HYFFORDDIANT TGCh A CHREU CYNNWYS

Ar ôl Cyfarwyddyd 3.7, ychwanegir y Cyfarwyddyd 3.8 newydd canlynol –

3.8. Athrawon yn gwasanaethu yn y cartref ac ysbytai: Bydd y Gronfa yn ymrwymo £1m ychwanegol (gan gynnwys costau gweinyddu) yn y DU erbyn 2004 ar gyfer hyfforddiant TGCh i athrawon sy'n rhoi gwasanaeth dysgu yn y cartref neu'r ysbyty.

Nodiadau Esboniadol

1. Yr athrawon ysbyty a chartref sy'n gymwys ar gyfer derbyn hyfforddiant yn unol â'r estyniad hwn fydd y rhai a gyflogir gan Awdurdodau Addysg Lleol yn Lloegr a Chymru, Awdurdodau Addysg yn yr Alban a Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon.

MANNAU GLAS A CHYMUNEDAU CYNALIADWY: CRONFA DIR YR ALBAN

Yng Nghyfarwyddyd 5.1 ychwanegir y geiriau canlynol yn y llinell gyntaf ar ôl "erbyn 2002" (sy'n darparu ar gyfer ymrwymo arian erbyn 2007) –

"ag eithrio prosiectau yn yr Alban sydd mewn perthynas â Chyfarwyddyd D.b(vii) y Cyfarwyddiadau a roddir i'r Gronfa yn unol ag adran 26(1) pan fydd arian yn cael ei ymrwymo erbyn 2007"

CYFARWYDDIADAU I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 43 C (I) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993

A. Rhoddir y Cyfarwyddiadau canlynol drwy hyn i'r Gronfa Cyfleoedd newydd yn unol ag adran 43C (1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

B. Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban, fel sy'n ofynnol yn unol â Deddf yr Alban 1998, Gweinidogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

C. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

D. Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau canlynol.

CYFRAN DEG

1.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2005, ymrwymo arian i brosiectau a gynlluniwyd i gyorthwyo cymunedau i ddeall, gwella a gofalu am eu hamgylchedd (gan gynnwys yr amgylchedd byw a chymdeithasol).

1.2. Dosberthir yr arian, ac eithiro costau gweinyddu, fel bod o leiaf 50 ardal yn y DU yn cael budd o brosiectau o'r fath. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i 77.5% o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, 11.5% ar gyfer prosiectau yn yr Alban, 6.5% ar gyfer prosiectau yng Nghymru a 4.5% ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol

1. Mae dyraniad yr arian yn ystyried poblogaeth ac amddifadedd ym mhob gwlad.

2. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Gronfa ymrwymo arian i bob gwlad yn y cyfrannau hyn bob blwyddyn ar yr amod, erbyn diwedd y fenter, bod cyfanswm y cyfrannau a enwyd wedi'u hymrwymo i bob gwlad.

3. Bydd y Gronfa wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn ar yr amod bod y canlyniad, gan gynnwys costau gweinyddol, heb fod yn fwy na 0.5% mwy neu lai o werth arian parod pob canran.

1.3. Dylai'r Gronfa gymryd yr holl gamau ymarferol i ddod i gytundeb â'r Gronfa Gymunedol ynglŷn â'r ardaloedd ym mhob gwlad o fewn y DU sydd am gael budd o brosiectau o'r fath. Dylai'r ardaloedd hyn fod yn rhai sydd:

i) yn dioddef amddifadedd y gellir ei brofi, fel a ddiffinir gan indecs amddifadedd cydnabyddedig; a

ii) yn ardaloedd sydd wedi derbyn llai o fudd cymunedol o arian y Loteri Genedlaethol nag eraill.

Nodiadau esboniadol

1. Nid yw o reidrwydd yn angenrheidiol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddarparu arian i'r holl ardaloedd a ddewisiwyd, cynb elled â bod yr holl ardaloedd ynderbyn rhywfaint o arian unai gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd neu'r Gronfa Gymunedol.

2. Wrth gyflwyno'r fenter hon, rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ymgynghori â'r budd ddeiliaid lleol a chenedlaethol perthnasol, Gweithrediaeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon ac yn Lloegr, yr Uned Gydlynu rhanbarthol a DCMS

3. Yng Ngymru, rhaid ystyried sut all yr arian ategu amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yna rbennig y fenter Cymunedau'n Gyntaf.

4. Daw'r Cyfarwyddiadau hyn o'r fenter a nodir yng Ngorchymyn 1999 y Gronfa Cyfleoedd Newydd (Manylion Mentrau),adran 3 (2).

CYFARWYDDIADAU I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 43 C(I) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL etc 1993

A. Rhoddir y Cyfarwyddiadau canlynol drwy hyn i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn unol ag adran 43C (1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

2. Ac eithrio fel a nodir ym mharagraff C, rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

3. Rhoddir y Cyfarwyddiadau a'r Nodiadau Esboniadol a restrir isod gan Weinidogion yr Alban, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd –

(1) mewn perthynas â "Chyfleoedd i Bobl Ifanc – AG a Chwaraeon mewn ysgolion", Cyfarwyddyd 4.2 a Nodyn Esboniadol 7;

(2) mewn perthynas â "Lleihau Baich Clefyd Coronaidd y Galon, Strôc a Chanser", Nodyn Esboniadol 6;

(3) mewn perthynas â "Gofal Lliniarol", Nodyn Esboniadol 6;

(4) mewn perthynas â "Gofal Plant", Cyfarwyddyd 8.2 a Nodyn Esboniadol 4; a

(5) mewn perthynas â "Thrawsnewid Cymunedau", Cyfarwyddyd 9.4 a Nodiadau Esboniadol 5 ac 8.

4. CYFLEOEDD NEWYDD I BOBL IFANC – AG A CHWARAEON MEWN YSGOLION

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrth ymarfer y pwerau a freiniwyd ynddo gan adran 26(1) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

2. At ddibenion y Cyfarwyddiadau hyn, diffinnir rhai termau allweddol yn yr Atodlen. Mae'r Atodlen hon yn rhan o'r Cyfarwyddiadau hyn.

3. Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau canlynol.

4. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2005, ymrwymo arian i brosiectau a ddyluniwyd i greu newid sylfaenol yn y ddarpariaeth cyfleusterau chwaraeon i bobl ifanc ac i'r gymuned yn gyffredinol drwy wneud y canlynol:

i) adnewyddu cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored presennol, ac adeiladu rhai newydd, at ddefnydd ysgolion a'r gymuned;

ii) darparu arian refeniw cychwynnol i gefnogi datblygu a hyrwyddo'r cyfleusterau chwaraeon hyn at ddefnydd y gymuned (hyd at 20% o gostau'r prosiect);

iii) adeiladu neu adnewyddu cyfleusterau menter awyr agored, lle byddai hyn o les i bobl ifanc sydd heb fynediad parod i'r cyfleusterau hyn ar hyn o bryd.

iv) darparu (neu wella), datblygu, gweithredu a hyrwyddo'r defnydd o adnoddau hamdden sy'n cyfrannu at wella iechyd, addysg a'r amgylchedd mewn cymunedau lleol.

4.2. Yn yr Alban, rhaid i'r Gronfa ymrwymo o leiaf 50% o'r arian sydd ar gael i brosiectau a enwir yn 4.1, a hyd at 25% o'r arian i gefnogi prosiectau am gyfleusterau a rhaglenni sydd wedi'u dylunio i hybu rôl chwaraeon mewn troi pobl ifanc o weithgarwch troseddol neu ymddygiad sy'n debygol o arwain at y cyfryw weithgarwch. Hefyd rhaid i'r Gronfa ymrwymo hyd at 25% o'r arian i gefnogi rhaglenni tu allan i oriau ysgol a drefnir drwy ysgolion sy'n cynnig i blant a phobl ifanc ystod eang o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys addysg awyr agored, antur a gweithgareddau ymestynnol eraill.

4.3. Dylai'r Gronfa ymrwymo £25 miliwn (heb gynnwys costau gweinyddol) i'r fenter "Lle i Chwaraeon a'r Celfyddydau" yn Lloegr i ysgolion cynradd foderneiddio cyfleusterau presennol a darparu cyfleusterau chwaraeon a/neu gelfyddydau newydd amlbwrpas at ddefnydd ysgolion a chymunedau. Hefyd rhaid i'r Gronfa ymrwymo yn Lloegr hyd at £30 miliwn dros 3 blynedd i brosiectau sy'n ymwneud â phêl-droed at ddefnydd ysgolion a chymunedau.

4.4. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £750.75 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon. O fewn y ffigur hwn dylai hyd at £50 miliwn gael ei ymrwymo i adeiladu neu adnewyddu cyfleusterau antur awyr agored.

4.5. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £581.25 miliwn o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, £87 miliwn ar gyfer prosiectau yn yr Alban, £48.75 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru a £33.75 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Dylai'r fenter hon ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyfleusterau AG, chwaraeon a gweithgarwch corfforol ansawdd uchel i ysgolion cynradd ac uwchradd, er y dylai'r cyfleusterau fod at ddefnydd y gymuned hefyd. Gall prosiectau gynnwys ystod o gyfleusterau newydd dan do ac awyr agored a gwella ansawdd cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.

2. Dylai arian refeniw o dan 4.1 ii) ganolbwyntio ar gostau cychwyn byrdymor gan gynnwys gwaith hybu, datblygu ac ymestyn a hyfforddiant staff. Fel rheol dylai fod yn llai nag 20% o grant y Gronfa.

3. Wrth gyflwyno arian ar gyfer cyfleusterau mewn ysgolion, dylai'r Gronfa weithio'n agos â'r Awdurdodau Lleol, Byrddau Addysg a Llyfrgelloedd ac awdurdodau perthnasol eraill Gogledd Iwerddon,Awdurdodau Iechyd, cymdeithasau llywodraeth leol, partneriaethau Ysgolion Iach a'r cynghorau chwaraeon.

4. Bydd pob ardal yn elwa ond dylid rhoi'r flaenoriaeth o ran ariannu i ardaloedd amddifadedd trefol a gwledig.

5. Yn Lloegr, dylai'r blaenoriaethau a'r cynlluniau ar gyfer gweithredu'r fenter hon yn Lloegr gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r Gynghrair Chwaraeon ysgol ac asiantaethau eraill syn ymwneud â gweithgarwch corfforol. Y bwriad yw targedu'r grŵp oedran 5-16. Bydd integreiddio Positive Futures neu raglen debyg â'r cynllun datblygu cyffredinol yn ogystal â Chynlluniau Gwella Iechyd yn cael eu hannog. Mae rhaglenni Positive Futures yn targedu pobl ifanc (10-16 oed) sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a chyfuno gweithgareddau chwaraeon â chyrsiau gwella personol a hybu iechyd, gan gysylltu â'r blaenoriaethau iechyd allweddol. Gall Awdurdodau Iechyd a Grwpiau/Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol fod yn bartneriaid allweddol.

6. Yn Lloegr, lle bo sefydliadau chwaraeon sy'n addo arian cyfatebol i ddatblygu chwaraeon penodol ac sy'n dymuno ymgymryd â phrosiectau at ddefnydd ysgolion a'r gymuned wedi'i sefydlu erbyn Ebrill 2001, dylid ymgynghori â hwy fel rhan o reolaeth y fenter.

7. Yn yr Alban, dylai prosiectau ystyried y blaenoriaethau a nodwyd yn sport 21, y strategaeth chwaraeon genedlaethol. Lle bo angen, dylai prosiectau gydategu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer ymdrin â throseddau ieuenctid a chynnig cyfleoedd i ddatblygu'r ystod o wasanaethau yn unol â chynlluniau gwasanaethau plant aml-asiantaeth awdurdodau lleol. Byddai ffocws arbennig ar weithgareddau sy'n hybu cysylltiadau effeithiol rhwng chwaraeon, diwylliant a dysgu, yn arbennig y rhai sy'n ceisio ysgogi disgyblion sy'n anfodlon a/neu wedi'u gwahardd o'r ysgol.

8. Yng Nghymru, dylai'r blaenoriaethau ariannu gydategu'r fenter Cymunedau'n Gyntaf. Dylai'r Gronfa ystyried polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y'u nodir yn ei gynllun strategol, ynghyd ag argymhellion tasgluoedd y Cynulliad ar AG a Chwaraeon Ysgol a Dulliau Byw Gweithgar ac Iach, a'i bolisïau ar gefnogi pobl ifanc, a bennir yn 'Estyn Hawliau' a 'Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth'. Dylid canolbwyntio ar ariannu prosiectau cost-isel fel mannau awyr agored pob tywydd, meysydd gemau amlbwrpas, ystafelloedd ffitrwydd iechyd a gwell ystafelloedd newid.

9. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai'r blaenoriaethau a'r cynlluniau ar gyfer gweithredu'r fenter hon gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Strategaethau Lleol dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu cyfleusterau i sicrhau datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc drwy gyfrwng rhaglenni fel Youth Sport, agenda Unlocking Creativity, sefydliad Chwaraeon y Deyrnas Unedig, Strategaeth Pêl-droed a phrosiectau sy'n bodloni Polisi Newydd Targedu Anghenion Cymdeithasol.

10. Yng Nghymru, dylai blaenoriaethau ar gyfer ariannu prosiectau o dan 4 (i) i 4 (iii) ategu at fenter Cymunedau'n Gyntaf. Dylai'r Gronfa gymryd polisïau Llywodraeth y Cynulliad i ystyriaeth, fel a amlinellwyd yn eu cynllun strategol, argymhellion cyrchluoedd Llywodraeth y Cynulliad ar AG a Chwaraeon Ysgolion a Ffyrdd o Fyw Iach ac Actif, a'i bolisïau ar gefnogi pobl ifanc, a amlinellwyd yn 'Ymestyn Hawliau' a 'Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth'. Dylai'r ffocws fod ar ariannu prosiectau cost isel megis mannau awyr agored pob tywydd, mannau gemau aml bwrpas, swîtiau ffitrwydd iechyd a gwelliannau i ystafelloedd newid.

11. Yng Nghymru, mewn perthynas â 4 (iv), dylai o leiaf £6.5 miliwn o ariannu gefnogi'r cyflwyniad o'r blaenoriaethau a adnabuwyd yn Dringo'n Uwch, strategaeth Llywodraeth y Cynulliad dros chwaraeon a hamdden actif cyn belled ag y maent yn berthnasol i iechyd, addysg a'r amgylchedd. Dylai prosiectau gefnogi chwaraeon cymunedol a'r strwythur hamdden actif. Wrth ddatblygu a chyflwyno prosiectau yng Nghymru, dylai'r Gronfa, lle'n addas, gydweithio'n agos ac awdurdodau lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru a budd-ddeiliaiad allweddol eraill.

12. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai blaenoriaethau a chynlluniau dros weithrediad prosiectau o dan 4 (i) i 4 (iii) gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Strategaethau Chwaraeon Lleol, Amgueddfeydd a'r Adran Hamdden. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddarpariaeth cyfleusterau er mwyn sicrhau datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc drwy raglenni megis 'Youth Sport', yr 'Unlocking Creativity agenda', Menter Chwaraeon y Deyrnas Unedig, y Strategaeth Bêl Droed a phrosiectau sy'n cwrdd ag amcanion targedu angen newydd.

13. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai'r ariannu o dan 4 (iv) fod â ffocws refeniw, ategu at ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes, gynnwys mentrau eraill y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a datblygu gweithgaredd chwaraeon a chorfforol eraill drwy'r ehangiad neu ymestyniad o'r rhaglen Chwaraeon Cymunedol newydd s'yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor Chwaraeon yng Ngogledd Iwerddon.

5. CYFLEOEDD A GWEITHGAREDDAU I BOBL IFANC

5.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2004, ymrwymo arian i raglenni ar gyfer pobl ifanc, ar sail antur a gweithgareddau ymestynnol eraill.

5.2. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £44.25 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon.

5.3. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £38.75 miliwn o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, £3.25 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru, a £2.25 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Dylai prosiectau geisio darparu rhaglen amrywiol a strwythuredig o weithgareddau.

2. Yn Lloegr, dylai fod ffocws arbennig ar bobl ifanc sy'n ymadael â'r ysgol ar ôl eu haddysg orfodol gan anelu'n benodol at y rhai â'r perygl mwyaf o golli cysylltiad â chyfleoedd addysg a hyfforddiant. Dylai'r rhaglen o weithgareddau gael ei darparu yn ystod yr haf ar ddiwedd addysg orfodol a nod y fenter fyddai hwyluso'r newid rhwng yr ysgol uwchradd a bywyd oedolyn. Dylai rhaglenni roi achrediad am bresenoldeb a bodloni amcanion, a'u hategu gan gyngor ac arweiniad ansawdd uchel i helpu'r cyfranogwyr i ddewis y ffordd briodol ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant, neu swydd/prentisiaeth gyda hyfforddiant.

3. Yn Lloegr, dylai'r Gronfa gydweithio'n agos ag Uned Genedlaethol Gwasanaethau Connexions (CSNU) i sicrhau bod ymgynghorwyr personol Connexions yn cael chwarae rhan mewn darparu cyngor ac arweiniad ansawdd uchel.

4. Yng Nghymru, dylai'r Gronfa gydweithio'n agos â'r Awdurdodau Addysg Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Dylid canolbwyntio ar bobl 14-18 oed. Lle bo modd, dylai rhaglenni gydategu'r fenter Estyn Hawliau, menter Porth Ieuenctid a'r fenter Cymunedau'n Gyntaf.Dylid defnyddio o leaif £1.55 miliwn i gefnogi gwaith Bwrdd Cyfianwder Pobl Ifanc a Thimau Trosedd Pobl Ifanc yng Nghymru, trwy raglen o fesuriadau gwrthdyniadaol ach ychwanegol â'r nod o fynd i'r afael A throsedd, poendod a thrafferthion ymhlith ieuenctid sydd wedo troseddu neu mewn perygl o droseddu. Dylai'r arian hwn, lle fo'n bosib gydfynd â gwaith y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol.

5. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai'r blaenoriaethau a'r cynlluniau ar gyfer gweithredu'r fenter hon gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Strategaethau Lleol dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden. Gall rhaglenni ddechrau cyn haf ymadael â'r ysgol er mwyn cysylltu â'r fenter 'Education other than at school'. Dylai'r Gronfa roi blaenoriaeth i hwyluso ymagweddau arloesol at fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, gan weithio ar y cyd â chyrff gwirfoddol a statudol, drwy gyfrwng rhaglenni hyfforddi Lifeskills i bobl ifanc sy'n dioddef anfantais ddifrifol neu luosog. Dylai prosiectau fod yn gysylltiedig yn glir â'r Polisi Newydd Targedu Anghenion Cymdeithasol.

6. Yn yr Alban bydd yr arian hyn yn ychwanegu at arian o fewn y rhaglen AG a Chwaraeon Ysgol i gefnogi prosiectau ar gyfer cyfleusterau a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo rôl chwaraeon wrth ddenu pobl ifanc o weithgareddau troseddol neu ymddygiad sy'n debygol o arwain at ymddygiad o'r fath.

6. LLEIHAU BAICH CLEFYD CORONAIDD Y GALON (CHD), STRÔC A CHANSER

6.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2004, ymrwymo arian i brosiectau sydd, rhyngddynt,wedi'u cynllunio i wneud y canlynol:

1) gwella mynediad i wasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer diagnosis a thriniaeth CHD, strôc a chanser, yn ôl safonau a ddiffinnir yn genedlaethol;

2) gwella mynediad i gyfleusterau diogel, modern a chyfleus ar gyfer adsefydlu cardiaidd, gan ddelio'n benodol ag anghydraddoldeb mewn darpariaeth,

3) cefnogi datblygiad mwy o rwydweithiau cymorth methiant y galon gan gynnwys ymyrraeth yn y cartref, rheoli a chefnogi symptomau, cydgysylltu gofal a chymorth i gleifion a gofalwyr;

4) lleihau'r perygl o CHD, strôc a chanser drwy ddarparu ymyrraeth effeithiol ar sail tystiolaeth.

6.2. Yn Lloegr, dylai prosiectau yn 6 iv) ganolbwyntio'n arbennig ar roi'r gorau i ysmygu, deiet, yn arbennig cynyddu bwyta ffrwythau a llysiau, a gweithgarwch corfforol, sy'n hygyrch,wedi'u targedu ac sy'n gysylltiedig â chyflwyniad gwasanaethau lleol.

6.3. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £213.5 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon.

6.4. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £162.5 miliwn o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, £26.6 ar gyfer prosiectau yn yr Alban, £15 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru, a £9.4 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau esboniadol:

1. Dylid targedu'r arian at y sectorau hynny o'r boblogaeth sydd dan yr anfantais fwyaf ac felly dan y perygl mwyaf o ddatblygu CHD, strôc a chanser.

2. Dylai'r Gronfa weithio gyda chyrff perthnasol yn y sector gwirfoddol, statudol a phreifat a chyda chymunedau lleol neu grwpiau diddordeb wrth gyflwyno'r fenter hon.

3. Ni fwriedir i fenter hon i ariannu ymchwil feddygol, glinigol na gwyddonol.

4. Gall prosiectau yn 6.1 iv) gynnwys rhai sy'n canolbwyntio ar leihau yfed alcohol a diogelwch yn yr haul.

5. Yn Lloegr, dylid rhoi blaenoriaeth i brosiectau CHD a strôc. Caiff ymyraethau atal eu cefnogi hefyd. Dylid rhoi pwyslais hefyd ar brynu offer i wella diagnosis a thriniaeth. Rhagwelir y bydd ceisiadau am arian yn ystyried y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer CHD, cynlluniau gweithredu lleol ar CHD a Chynllun Canser yr NHS.

6. Yn yr Alban, dylid rhoi blaenoriaeth i offer a gwasanaethau a fydd o les i gleifion CHD, canser a strôc, gan gynnwys gwasanaethau hysbysrwydd. Rhagwelir y bydd ceisiadau am arian yn ystyried 'Our National Health: a plan for action, a plan for change', Cynllun Canser yr Alban a Chynllun Cenedlaethol CHD.

7. Yng Nghymru, dylai'r Gronfa ystyried prosiectau sy'n gwella darpariaeth gwasanaethau dydd ac adsefydlu i gleifion strôc gyda'r nod o wella mynediad i'r cyfryw wasanaethau ledled y wlad. Dylai'r Gronfa ystyried 'Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun ar gyfer yr NHS a'i Bartneriaid' a mentrau fel Cymunedau'n Gyntaf a'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd.

8. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai prosiectau gynnwys amcan penodol o leihau anghydraddoldebau yng nghyffredinolrwydd clefyd y galon a chanserau ar draws dosbarthiadau cymdeithasol-economaidd yn unol â'r Polisi Newydd targedu Anghenion Cymdeithasol, yr adroddiad 'Cancer Services: Investing in the Future' (adroddiad Campbell) a'r Strategaeth Buddsoddi mewn Iechyd.

7. GOFAL LLINIAROL

7.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2004, ymrwymo arian i brosiectau sy'n darparu gofal lliniarol effeithiol a chefnogaeth a gwasanaethau gwybodaeth cysylltiedig i blant ac oedolion sy'n dioddef canser ac anhwylderau eraill sy'n bygwth bywyd.

7.2. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £84 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon.

7.3. Dylai'r arian, heb gynnwys costau gweinyddol, gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £70 miliwn o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, £5.4 ar gyfer prosiectau yn yr Alban, £4.5 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru, a £4.1 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon. Yn Lloegr dylai £22 miliwn gael ei ymrwymo i brosiectau sy'n targedu oedolion a £48 miliwn i brosiectau sy'n targedu plant.

Nodiadau esboniadol:

9. Nod y fenter hon yw cynyddu mynediad i gefnogaeth estynnol yn y gymuned, gofal seibiant, gwasanaethau gwybodaeth a phrofedigaeth i gleifion, teuluoedd a gofalwyr. Er mwyn sicrhau lledaeniad daearyddol, dylid rhoi cefnogaeth i brosiectau o ranbarthau gyda mynediad gwael iawn i wasanaethau gofal lliniarol cymunedol.

10. Dylai prosiectau gofal lliniarol i blant ddangos gwasanaeth ansawdd uchel sy'n caniatáu annibyniaeth a dewis i blant a'u teuluoedd. Dylai prosiectau gydnabod bod gan blant anghenion corfforol, emosiynol, addysgol, cymdeithasol ac ysbrydol a gallant gynnwys gofal nyrsio, gofal seibiant, cwnsela, cymorth ymarferol ac amserol yn ystod bywyd y plentyn ac ar ôl hynny pan fydd colled, galar a phrofedigaeth. Hefyd gellir ariannu darpariaeth newydd, datblygu ac ehangu darpariaeth bresennol, neu gynnal darpariaeth bresennol ansawdd dda sydd angen ymyrraeth benodol a chyfyngedig i gynnal gwasanaethau neu eu datblygu, ar yr amod bod awgrym clir o'i chynaliadwyedd hir-dymor.

11. Ni fwriedir i fenter hon i ariannu ymchwil feddygol, glinigol na gwyddonol.

12. Dylai'r Gronfa weithio gyda chyrff perthnasol yn y sector cymunedol, gwirfoddol, statudol a phreifat wrth gyflwyno'r fenter hon.

13. Yn Lloegr, dylai'r Gronfa sicrhau bod gan bob prosiect i blant gefnogaeth yr Awdurdod Iechyd perthnasol a'r swyddfa ranbarthol briodol sy'n gyfrifol am gydgysylltu gweithredu'r Prosiect Rhaglen Beilot i Blant ag Anhwylderau sy'n Bygwth Bywyd. Dylai'r Gronfa sicrhau bod gan bob prosiect i oedolion gefnogaeth yr Awdurdod Iechyd perthnasol a'r swyddfa ranbarthol briodol sy'n gyfrifol am gydgysyltu gweithredu'r Cynllun Canser Cenedlaethol, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer CHD a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol sydd ar y gweill ar gyfer Pobl Hyn.

14. Yn yr Alban, yn unol â'r ymrwymiad yn 'Our National Health: a plan for action, a plan for change', dylai fod pwyslais arbennig ar brosiectau sy'n ymwneud ag anhwylderau graddol heblaw canser. Dylai'r Gronfa sicrhau bod gan bob prosiect gefnogaeth y Bwrdd neu'r Byrddau iechyd perthnasol.

15. Yng Nghymru, dylai' Gronfa ariannu prosiectau cyfalaf sy'n gwella amgylcheddau gofal a gweithio gofal lliniarol. Dylai fod gan brosiectau gefnogaeth y corff comisiynu iechyd perthnasol a dylai'r Gronfa ystyried 'Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun ar gyfer yr NHS a'i Bartneriaid'.

16. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai'r Gronfa weithio gyda'r cyrff perthnasol yn y sectorau cymunedol, gwirfoddol, statudol a phreifat wrth gyflwyno'r fenter hon, gan gyfeirio'n arbennig at yr adroddiad Buddsoddi mewn Iechyd.

8. GOFAL PLANT

8.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2006, ymrwymo arian i brosiectau Gofal Plant sydd:

1) yn cefnogi prosiectau cyfalaf a fyddai o fudd yn bennaf o blant cyn-ysgol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig;

ii) yn cefnogi creu, datblygu a chynaliadwyedd hirdymor darpariaeth gofal plant tu allan i oriau ysgol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

8.2. Yn yr Alban, gall prosiectau yn 8.1 ii) fod ar gyfer darpariaeth gofal plant cyn-ysgol hefyd. Yn ogystal gall y Gronfa gefnogi prosiectau sy'n bodloni anghenion rhieni sy'n gweithio, yn astudio neu'n hyfforddi a phrosiectau sy'n hyrwyddo datblygu'r gweithlu er mwyn cynyddu lefel medrau cyffredinol y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant. Gall y Gronfa gefnogi prosiectau sy'n cyfuno gofal plant a dysgu tu allan i'r ysgol hefyd.

8.3. Yng Nghymru, gall y Gronfa ariannu prosiectau sy'n cefnogi darpariaeth chwarae lle ceir staff, hyfforddi ac adeiladu cynhwysedd mewn cymunedau er mwyn datblygu a chynnal yr ystod lawn o brosiectau gofal plant, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

8.4. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £198.5 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon.

8.5. Dylai'r arian gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £155 miliwn o'r cyfanswm a ddyrennir, maes o law, fynd i brosiectau yn Lloegr, £21.5 ar gyfer prosiectau yn yr Alban, £13 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru, a £9 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

8.6. Byddai arian yn 8.1 i) yn cyfrannu, ochr yn ochr â ffynonellau arian eraill, at greu 45,000 o leoedd gofal plant newydd yn Lloegr, tra byddai arian yn 8.1 ii) yn cefnogi creu 10,000 o leoedd gofal plant newydd yn Lloegr. Bydd hefyd yn darparu arian cychwyn tymor hwy ar gyfer prosiectau gofal plant, a fydd yn helpu EYDCPs lleol i fodloni targed y DfEE o sicrhau bod o leiaf 80% o holl leoedd gofal plant tu allan i oriau ysgol a noddir gan y Gronfa aros yn hyfyw ac ar gael pum mlynedd ar ôl cael eu sefydlu.

Nodiadau esboniadol:

2. Byddai'r prosiectau a nodir yn 8.1 i) yn rhoi cymorth cyfalaf i adeiladu, ehangu neu adnewyddu darpariaeth. Gellir defnyddio arian hefyd i ddarparu mannau chwarae a phrynu celfi a ffitiadau ac unrhyw offer cyfalaf arall. Gall arian cyfalaf a refeniw ddarparu bysiau chwarae a llyfrgelloedd teganau ar gyfer ardaloedd gwledig, cyfleusterau ar gyfer gofal plant am gyfnodau hwy o'r dydd a darparu cyfleusterau chwarae awyr agored.

3. Yn aml gall fod ar ddarpariaeth gofal plant mewn ardaloedd difreintiedig angen cymorth tymor hwy, hyd at dair blynedd, er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn yr hir dymor.

4. Yn Lloegr, dylai'r Gronfa weithio'n agos â'r Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac yng Ngogledd Iwerddon â'r Partneriaethau Gofal Plant i gyflwyno'r fenter hon.

5. Yn yr Alban, dylai prosiectau ystyried strategaeth gofal plant yr Alban a dylai'r Gronfa weithio'n agos â'r Partneriaethau Gofal Plant lleol wrth gyflwyno'r fenter hon.

6. Yng Nghymru, dylai'r Gronfa ystyried hefyd y fenter Cymunedau'n Gyntaf a gweithio gyda'r partneriaethau gofal plant lleol wrth gyflwyno'r fenter hon.

9. TRAWSNEWID CYMUNEDAU

9.1. Dylai'r Gronfa, erbyn Mawrth 2004, ymrwymo arian i brosiectau sydd, rhyngddynt, wedi'u cynllunio i wneud y canlynol:

5) yn gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol gan gynnwys hybu dulliau byw mwy iach, gwella ymddangosiad ac amwynderau amgylcheddau lleol penodol mewn ardaloedd trefol a gwledig;

6) ehangu ail ddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff yn y sector cymunedol.

9.2. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2006, ymrwymo arian i brosiectau sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu generadu ynni adnewyddadwy drwy adeiladu cynhwysedd generadu i gnydau ynni, adeiladu prosiectau generadu ynni gwynt ar y môr a datblygu prosiectau gwres biomas a gwres a phŵer cyfun graddfa-fach.

9.3. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £159 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon. O fewn hyn, dylid cynllunio i wario £99 miliwn ar sail rhaniad cyfartal rhwng y ddwy elfen yn 9.1 i) a ii), a £50 miliwn i brosiectau a nodir yn 9.2. O'r £50 miliwn hwn, dylid ymrwymo o leiaf £33 miliwn i ddatblygu generadu ynni adnewyddadwy drwy adeiladu cynhwysedd generadu ar gyfer trydan o gnydau ynni, o leiaf £10 miliwn i adeiladu prosiectau generadu ynni gwynt ar y môr ac o leiaf £3 miliwn i brosiectau gwres biomas a gwres a phŵer cyfun graddfa-fach.

9.4. Yn yr Alban, rhaid i'r Gronfa ymrwymo £10 miliwn i brosiectau sy'n archwilio mathau newydd o adsefydlu cymunedol i bobl sy'n camddefnyddio neu sydd wedi camddefnyddio cyffuriau.

9.5. Dylai arian ar gyfer prosiectau yn 9.1 i) a ii) gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £77.5 miliwn fynd i brosiectau yn Lloegr, £10.5 ar gyfer prosiectau yn yr Alban, £6.5 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru, a £4.5 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

Nodiadau cyfarwyddyd:

1. Gallai'r Gronfa, er enghraifft, ymrwymo arian i brosiectau yn 9.1 i) sydd: yn gwella mannau agored cyhoeddus; yn gwella ansawdd a defnydd yr amgylchedd stryd, fel plannu coed a gwelliannau tirlunio; yn mynd i'r afael â safleoedd diffaith; yn gwella tirlunio mannau cyhoeddus; yn clirio neu'n gwella cyflwr mannau hyll lleol fel tir cyhoeddus blêr neu wedi'i esgeuluso; yn gwella llwybrau beicio; yn gwella mannau i gerddwyr, fel llwybrau troed, perthi, llwybrau ceffylau a phontydd i gerddwyr; neu'n gwella adeiladau cymunedol a chyhoeddus dadfeiliedig. Gellid defnyddio arian hefyd i wella elfennau o werth treftadaeth lleol, a gellid gwario ar gydategu gwaith Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Gallai prosiectau gynnwys rhai sy'n gwella ansawdd amgylcheddol cymunedau lleol hefyd, gan gynnwys bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffyrdd cynaliadwy o fyw. Dylai prosiectau i wella nodweddion ffisegol ystyried eu pwysigrwydd fel cynefinoedd i fywyd gwyllt hefyd.

2. Wrth ariannu prosiectau yn 9.1 i), dylai'r Gronfa roi blaenoriaeth i gymunedau mewn ardaloedd difreintiedig, er y dylai eraill fod yn gymwys i wneud cais. Dylai prosiectau ddangos cyfranogiad sylweddol ac ystyrlon y gymuned leol. Dylid annog ceisiadau a arweinir gan gymunedau yn ogystal â phrosiectau sy'n ceisio datblygu asedau cymunedol cynaliadwy, naill ai'n ffisegol neu ar sail gwybodaeth (er enghraifft adeiladu cynhwysedd cymuned i gyflwyno gwasanaethau'n lleol), a fydd o bosib yn ceisio buddsoddiad strategol ar gyfer newid tymor hwy. Hefyd gall y Gronfa ariannu prosiectau sy'n cefnogi gweithgarwch adeiladu cynhwysedd lle bo hynny'n gysylltiedig â gwaith prosiect ymarferol.

3. Wrth ariannu prosiectau yn 9.1 i), yn Lloegr, dylai'r Gronfa roi sylw penodol i brosiectau sy'n ymwneud â Phartneriaethau Strategol Lleol a gweithgareddau adfywio ar sail ardaloedd. Dylai prosiectau gyd-fynd â mentrau lleol a rhanbarthol eraill fel Agenda leol 21, Strategaethau Cymunedol neu Gynlluniau Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth, a'u cydategu.

4. Dylai prosiectau yn 9.1 ii) dargedu cyflwyno'r uchafswm ailddefnyddio/ ailgylchu/ compostio, yn ôl pwysau, am bob punt sy'n cael ei hymrwymo, a hynny yn nhermau arian y Gronfa, a chyfanswm yr arian gan gynnwys arian partneriaeth. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai prosiectau hybu nodau ac amcanion allweddol y Strategaeth Rheoli Gwastraff.

5. Yn yr Alban, dylai prosiectau hybu nodau allweddol y Strategaeth Wastraff Genedlaethol.

6. Wrth gefnogi prosiectau yn 9.2, dylai'r Gronfa ddarparu arian ar gyfer nifer fach o brosiectau cnydau ynni a gwynt ar y môr. Bydd y profiad a geir o'r prosiectau hyn yn helpu i leihau costau a risgiau i'r pwynt lle gallant gystadlu heb y cyfryw gefnogaeth. Dylai prosiectau ddangos yn glir y fantais i'r cyhoedd a fyddai'n ganlyniad yr arian.

7. Hefyd yn 9.2, dylai'r Gronfa gefnogi datblygu ystod o gyfleoedd yn y sectorau gwres a phŵer cyfun, sy'n defnyddio cnydau ynni neu fathau eraill o fiomas fel y prif danwydd. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r prosiectau hynny sy'n bwriadu defnyddio cnydau ynni ac i ddatblygu clystyrau o brosiectau sy'n tynnu'r cyflenwad tanwydd i mewn o'r cyffiniau. Dylai prosiectau ddangos y potensial i gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Dylai'r Gronfa gydweithio ag awdurdodau lleol,Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol ac economaidd neu gyrff tebyg wrth gefnogi'r prosiectau hyn.

8. Byddai prosiectau yn 9.4 yn cysylltu pobl â chyfleoedd addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a llety gan gydategu gwasanaethau triniaeth cyffuriau a redir gan gyrff statudol neu a ariannir ganddynt, a chael eu cynllunio i fodloni anghenion grwpiau dan anfantais arbennig neu anodd eu cyrraedd. Dylai prosiectau fod o fewn cwmpas bras strategaeth gyffuriau'r Alban a dylai'r Gronfa gydweithio â'r Timau Gweithredu ar Gyffuriau lleol a, lle bo'n berthnasol, y Partneriaethau Cynhwysiad Cymdeithasol i gyflwyno'r fenter hon.

10. CYNLLUNIAU GRANTIAU GRADDFA-FACH

10.1. Rhaid i'r Gronfa, erbyn 2005, ymrwymo arian i brosiectau sy'n cynnwys pobl yn y gymuned leol mewn prosiectau iechyd, addysg a'r amgylchedd.

10.2. Rhaid i'r Gronfa ymrwymo cyfanswm o £69 miliwn i brosiectau sy'n dod o fewn y fenter hon.

10.3. Dylai arian gael ei ddyrannu rhwng pob gwlad yn y DU er mwyn i £46.5 miliwn fynd i brosiectau yn Lloegr, £6.9 ar gyfer prosiectau yn yr Alban, £3.9 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru, a £2.7 miliwn ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon.

10.4. Dylai'r Gronfa drefnu bod arian ar gael ar gyfer prosiectau iechyd, addysg a'r amgylchedd sy'n dathlu Jiwbilî Aur y Frenhines yn 2002.

Nodiadau esboniadol:

1. Dylai'r Gronfa weithredu drwy gyfrwng y cynlluniau Arian i Bawb yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a thrwy bartneriaeth gyfatebol yng Nghymru.

2. Dylai prosiectau Jiwbilî gynnwys un neu ragor o'r nodweddion canlynol: cynnwys pob rhan o'r gymuned; ymgorffori natur amlddiwyllianol y DU; annog cynhwysiant cymdeithasol ac ymdeimlad o ysbryd cymunedol; darparu neu hybu gwasanaeth i eraill; a chynnwys pobl ifanc.

GWELLIANNAU I'R CYFARWYDDIADAU I'R GRONFA CYFLEOEDD NEWYDD O DAN ADRAN 43C (1) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL etc 1993

A. Rhoddir y Cyfarwyddiadau canlynol drwy hyn i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn unol ag adran 43C (1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

B. Ac eithrio fel a nodir ym mharagraff C, rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

C. Rhoddir y Cyfarwyddiadau a'r Nodiadau Esboniadol a restrir isod gan Weinidogion yr Alban, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

i) mewn perthynas â chyfeiriad newydd 5.2 c a Nodyn Esboniadol 6.

GWEITHGAREDDAU I BOBL IFANC

5.1. Bydd y Gronfa, erbyn 2004, yn ymrywmo arian i raglenni ar gyfer pobl ifanc, sydd wedi eu seilio ar antur a gweithgareddau heriol eraill.

5.2. Bydd y Gronfa yn ymrywmo cyfanswm o £55.75m i brosiectau sy'n disgyn o fewn y fenter hon. The funds, excluding administration costs, should be allocated between each country of the UK so that, over a period of time, 77.5% of the total funds committed to projects is for projects in England, 11.5% is for projects in Scotland, 6.5% is for projects in Wales and 4.5% is for projects in Northern Ireland.

c. Dylid dyrannu'r arian rhwng gwledydd y DU fel bod, maes o law, £47.55 miliwn o'r cyfanswm a ddyrennir i brosiectau ar gyfer Lloegr, £4.05 millwin i brosiectau yng Nghymru a £2.85m ar gyfer prosiectau yng Ngogledd Iwerddon. Mae £1.3m ar gyfer prosiectau yn yr Alban.

Nodiadau Esboniadol

1. Dylai prosiectau anelu at ddarparu rhaglen amrywiol a strwythuredig o weithgareddau.

2. Yn Lloegr, dylid canolbwyntio yn arbennig ar bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ar ôl addysg orfodol a'i anelu yn arbennig at y rhai hynny sydd yn y perygl mwyaf o golli cysylltiad â chyfleoedd addysgol a hyfforddiant. Dylid darparu'r rhaglen o weithgareddau yn ystod yr haf ar ddiwedd addysg orfodol a bwriad y fenter fyddai hwyluso'r newid rhwng ysgol uwchradd a bywyd fel oedolyn. Dylai'r rhaglen rhoi credydau ar gyfer presenoldeb ac amcanion a gyflawnir, a dylid eu hatgyfnerhtu gan gyngor a chyfarwyddyd o safon uchel i gynorthwyo'r rhai sy'n cymrud rhan i ddewis y llwybr cywir ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu swydd/ prentisiaeth gyda hyfforddiant. Dylid defnyddio £8.8m, ac eithrio costau gweinyddu, ar gyfer cyfrannu i ymgyrch y Llywodraeth i fynd i'r afael â throsedd ar y stryd trwy ariannu mentrau sy'n darparu amrediad eang o weithgareddau yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn 2002 i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o droseddu neu aildroseddu, ac sy'n byw mewn ardaloedd sydd â'r amledd uchaf o drosedd stryd. Yn arbennig, dylai'r arian gyflenwi menter Splash y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol.

3. Yn Lloegr, dylai'r Gronfa weithio yn agos gydag Uned Genedlaethol Gwasanaeth Connexions (CSNU) i sicrhau bod cynghorwyr personol Gwasanaeth Connexions yn gllau chwarae rhan wrth ddarparu cyngor ac arweiniad o safon.

4. Yng Nghymru dylai'r Gronfa weithio yn agos gydag Awdurdodau Addysg Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant . Dylid canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 14-18 oed. Dylai rhaglenni, lle bo hynny'n bosibl ategu'r fenter Ymestyn Hawliau, menter Youth Gateway a'r fenter Cymunedau'n Gyntaf. Dylid defnyddio o leiaf .8 miliwn ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o fydn i'r afael â throsedd ac yna rbennig broblemau pobl ifanc sydd mewn perygl o aildroseddu. Lle bo hynny'n bosibl dylai'r arian geisio ategu'r rhaglen Splash a weithredir yng Nghymru gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

5. Yng Ngogledd Iwerddon, dylid datlbygu blaenoriaethau a chynlluniau ar gyfer gweithredu'r fenter hon mewn ymgynghoriad â'r grŵp Fforwm Diwylliannol. Gall rhaglenni gychywn ynghynt na'r haf y gadawir yr ysgol i gysylltu â'r fenter 'Education other than at school'. Dylai'r Gronfa roi blaenoriaeth i gynorthwyo dulliau arloesol o fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, gan weithio mewn ar y cyd â mudiadau gwirfoddol a statudol, trwy gyfrwng rhaglenni hyfforddi Lifeskills ar gyfer pobl ifanc sy'n dioddef anfantais difrifol neu luosol. Dylai prosiectau fod â chysylltiad amlwg â'r Polisi Targedu Angen Cymdeithasol Newydd.

6. Yn yr Alban, bydd yr arian hwn yn ychwanegol at yr arian a gedwir o fewn rhaglen Addysg Gorfforl a Chwaraeon mewn Ysgolion i gefnogi prosiectau ar gyfer adnoddau a rhalgenni sydd wedi'u cynllunio i hybu swyddogaeth chwaraeon wrth fynd â bryd pobl oddi wrth weithgareddau ac ymddygiad troseddol sy'n debyogl o arwain at weithgareddau o'r fath.

DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL etc. 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) CYFARWYDDIADAU ARIANNOL I'W RHOI O DAN ADRAN 26(3), (3A) A (4)

(i) Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ("y Corff") gydymffurfio â'r gofynion a gynhwysir yn y Datganiad o Ofynion Ariannol a amgaeir fel Atodiad i'r cyfarwyddiadau hyn wrth gynnal ei swyddogaethau o dan adran 25 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 ("Deddf 1998"). Lle bynnag a bennir yn yr Atodiad, rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn cyflawni rhai gweithgareddau.

(ii) Rhaid i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddyfeisio a glynu at weithdrefn ar gyfer ymdrin â gwrthdrawiadau diddordeb posibl a all godi wrth werthuso ceisiadau gan y Corff neu aelodau unigol o'r Corff hwnnw. Dylai'r weithdrefn hon, ynghyd â datganiad sy'n cadarnhau'r trefniadau sydd wedi'u cymhwyso, gael ei rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Ysgrifennydd Gwladol") cyn i unrhyw arian gael ei ddosbarthu o dan adran 25 o'r Ddeddf, ac ar ôl hynny ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Argraffwyd yn y DU ar gyfer 'The Stationery Office Limited' ar ran
Rheolwr Offer swyddfa Ei Mawrhydi
10/05, 173472

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ac ar gael:

Ar y we

www.tso.co.uk/bookshop

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebu trwy Linell Frys y Senedd: Lo-Call 0845 7 023474
E-bost bookorders@theso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau Llyfrau Y Llyfrfa

123 Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Siôp Lyfrau'r Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866

Asiantaethau Achrededig

(Gweler Yellow Pages)

a thrwy lyfrwerthwyr da